YR YMOFYNYDD.

RHIF. 72.] RHAGFYR, 1864. [AIL GYFRES

NINEFEH.

"Hon yw y ddinas hoyw oedd yn trigo yn ddiofal, yn dywedyd yn ei chalon, Myfi sydd, ac nid oes ond myfi."—SEPH. II. 15.

AR un o wastadeddau mawrion Asia—gerllaw lle y tybir oedd gardd Eden—lle y tybir y cafodd Abraham ei eni—lle y tybir y gorphwysodd yr arch ar fynydd Ararat—yr oedd dinas fawr ardderchog—y ddinas fawr gyntaf a adeiladwyd yn y byd; enw'r ddinas hon oedd NINEFEH.

Yr oedd y Patriarch Noah yn fyw pan y dechreuwyd adeiladu Ninefeh. Yr oedd efe y pryd hwnw yn hên ŵr—â'i ben wedi ei wynu gan oedran. Yr oedd eisoes wedi byw saith cant o flynyddau. Yr oedd ei feibion a'i ferched a'u plant yn tyfu i fyny o amgylch iddo. Y mae lle da i gredu fod llawer o'r rhai hyn yn ufuddhau i'w lais ac yn byw yn gyttun ac yn ddedwydd gydâ'i gilydd. Y mae'n ddiammheu yn beth naturiol iawn i feddwl fod yr hên wr yn fynych yn dywedyd wrthynt am ddrwg pechod, ac yn adrodd am y gweledigaethau rhyfedd ac arswydus oedd efe wedi weled trwy ffenestri'r arch, pan y darfu i Dduw foddi'r byd o herwydd ei ddrygioni trwy ddiluw o ddwfr.

Yr oedd gan Noah or-wyr—enw hwnw oedd *Nimrod;* ond nid yw yn ymddangos ei fod yn un o'r rhai mwyaf addfwyn a thangnefeddus—yn wir y mae ei enw yn dywedyd cymmaint a hyny, ystyr ei enw yw "Gwrthryfelwr." Dichon ei fod wedi gwrandaw yn fynych, pan ar arffed ei ben dadcu, ar ystoriau am y cewri mawrion a fodolent cyn y diluw; ac feallai fod arno chwant fod yn debyg iddynt—i ddyfod yn ddyn mawr mewn rhyfel, ac enill clod ac anrhydedd. Dechreuodd gydâ bod yn "heliwr cadarn,"—yn lladd llewod a theigrod a chreaduriaid rheibus ereill y rhai oeddynt yn awr yn dechreu amlhau yn ddirfawr. Ond nid ymfoddlonai efe ar hyny o orchwyl. Yr oedd y ddaear etto yn dechreu llanw'n bert o drigolion; felly cafodd gan liaws o rai o gyffelyb elfen iddo yntau i ymuno ag ef i fyned allan i ryfel. Chwant oedd arno i fod y dyn mwyaf yn y byd; ac y mae pobl y Dwyrain hyd etto yn dywedyd mai efe oedd y cyntaf erioed o'r hil ddynol a wisgodd goron ar ei ben, y cyntaf erioed a alwyd yn "Frenin."

Dywed y Beibl wrthym i'r Brenin Nimrod ar ol gorthrechu gwledydd ereill fyned tuhwnt i Assyria ac adeiladu NINEFEH.* Ar un llaw i'r afon Tigris, os edrychir ar *map* o Asia, fe welir dinas Mosul, dinas ddiweddar;—

* *Gwel Gen.* x. 11.—"A chan fyned tua'r gogledd i Assyria (oblegid gellir cyfieithu'r adnod felly), Nimrod a adeiladodd Ninefeh, oddiwrth enw ei fab Ninus, fe dybir; gan fod Ninefeh yn arwyddocâu trigfa neu breswylfa Ninus."—*Priestley.*

ac ar y llaw arall, ar y gwastadedd gogyfer â'r ddinas hono y safai muriau Ninefeh, muriau a ddechreuwyd eu hadeiladu gan orwyr Noah, ac a welwyd mae'n dra thebygol gan lygaid Noah ei hunan; oherwydd efe a fu byw 250 o flynyddau wedi sylfaenu Ninefeh.

Mawredd Ninefeh.—Cymmerwn gip-olwg ar ddinas yr "heliwr cadarn" 1500 o flynyddau ar ol ei sylfaenu. Pan yr ymwelodd Nimrod gyntaf a'r lle, nis gallai fod yn ddim amgenach na gwastadedd ammhoblog iawn, ac arno etto lawer iawn o olion y diluw a olchodd drosto tua chan mlynedd cyn hyny. Ond pa beth ydyw'r olygfa yn awr. Y mae myned o amgylch i'r ddinas yn 60 milldir—siwrne tri diwrnod;—y mae'r muriau yn gan troedfedd o uchder; ac y mae tua phymtheg cant o dyrau wedi eu hadeiladu ar y muriau i'w hamddiffyn oddiwrth y gelynion; a phob twr yn 200 troedfedd o uwchder. Nis gellir dywedyd pa nifer o ddynion mewn oedran oedd yn Ninefeh, ond bydd yn syn gan rai glywed fod yno tua chant a chwe ugain mil o blant (Jonah iv. 11); ac oddiwrth hyn feallai y gellir dyfalu pa faint oedd nifer y trigolion. Wrth rodio ar lan afon Tigris, yr hon oedd yn dylifo trwyddi, yr oedd palasau a themlau gorwych yn ganfodedig, wedi eu hamgylchu â gerddi y rhai a redent i lawr hyd at ymyl yr afon. Ac yn ymddyrchafu uwchlaw iddynt oll, â therras ar ben terras o glai pobedig, yr oedd palas y brenin. Yr oedd llewod wedi eu cerfio o alabaster gwyn, âg adenydd ganddynt fel adenydd eryrod, ar bob llaw i'r fynedfa i mewn. Ac yn y neuaddau *(halls)* mawrion yr oedd priddfeini a llechau yn weledig, ag amrywiol ddyfeisiadau yn gerfiedig ynddynt, yn ymddisgleirio'n llachar yn haul y dwyrain. Ar un mur y mae darluniau o ryfeloedd a gwarchaeau a buddugoliaethau wedi eu cerfio; ar un arall yr ydys wedi tori lluniau o'r brenin a'i wŷr mawrion o amgylch iddo—ei elynion yn gorwedd wrth ei draed; ar un arall y mae lluniau anifeiliaid a blodeu wedi eu paentio yn y lliwiau mwyaf disglaer. Yr oedd y llawr wedi ei balmantu â llechau o fynor, a'r rhai hyny wedi eu cuddio â llythyrenau ac arluniau. Yr oedd y nenfwd *(ceiling)* wedi ei addurno'n gywrain âg *ivory* a choedydd gwerthfawr, a'r rhai hyny wedi eu harddu drachefn a'u nerthu gan lafnau o arian ac o aur. Pe'n bresennol ar y pryd gallem weled offeiriaid a thrulliaid yn gyru yn ol ac ym mlaen, a chlywed sŵn miwsig yn awr ac yn y man yn syrthio ar ein clustiau, ac arogli yn awel y boreu berarogl blodeu gardd y brenin. Gallem weled cerbydau a rhyfelwyr a'u ceffylau yn carlàmu o stryd i stryd, a chlywed sî y ddinas fawr oddiamgylch i ni ym mhob man. Dyna Ninefeh yr amser hwnw—dinas fawr ac ardderchog; ond er yn fawr o ran maintioli, yr oedd yn fawr, yn rhy fawr hefyd mewn pechod. Yr oedd mor fawr fel y penderfynodd Duw ei dinystrio onid edifarhäai.

Edifeirwch Ninefeh.—Un diwrnod, pan oedd y brenin yn ei balas brenhinol, yng nghanol ei wŷr mawrion, daeth y newydd ato fod cynhwrf mawr yn y dref—fod dyn mewn gwisg hynod, Iuddew o Balestina, yr hwn a alwai ei hunan yn brophwyd, er y boreu yn rhedeg o strŷd i strŷd ac yn gwaeddi â llef uchel, "Deugain niwrnod fydd etto a Ninefeh a gwympir." Treiwyd ei rwystro, ond pa fwyaf y ceisient wneud hyny mwy fwy y llefai efe "Deugain niwrnod fydd etto a Ninefeh a gwympir!" Jonah ydoedd, Prophwyd y Goruchaf, cenad oddiwrth y Gwir Dduw wedi ei anfon i'w galw i edifeirwch. Ac nis danfonwyd ef yn ofer. Tynerwyd calonau balch y bobl. Gwisgasant sach-lïan, a chuddiasant eu penau â lludw ac ni fwytaent—gan mor ddrwg oedd ganddynt oherwydd eu pechodau. A'r brenin ei hunan "a

gyfododd o'i frenhin-faingc, ac a ddiosgodd am dano ei frenhin-wisg, ac a roddes am dano lian sach, ac a eisteddodd mewu lludw." Trwy orchymmyn y brenin cyhoeddwyd fod ympryd i gymmeryd lle trwy'r holl wlad. Annogwyd y bobl i weddio,—ac i alw yn lew ar Dduw, ac i droi bob un o honynt o'u ffyrdd drygionus. Yr oedd hyd yn oed yr anifeiliaid i ymgymmysg yn llefain y brenin a'i fobl; a Duw yn ei drugaredd a arbedodd *Ninefeh.*

A bu'n ddrwg gan Jonah arbed o Dduw drigolion Ninefeh—digiodd yn fawr; oni ddylai efe yn hytrach fod yn llawen a gorfoleddu, pan yn eistedd ar ael y bryn, ac yn edrych i waered ar y myrddiynau dynion oedd ei bregethiad difrifol wedi eu hachub o ddistryw? Da fuasai i Ninefeh pe buasai wedi parhau fel yma yn ostyngedig ac yn edifeiriol gerbron Duw. Ond och! fel cicaion Jonah ei hedifeirwch a'i phenderfyniadau da yn fuan a ddiflanasant.

Ninefeh dan Sennacherib.—Brysiwn ym mlaen etto bedwar ugain miynedd a deg ac edrychwn un waith yn ychwaneg ar ogoniant y ddinas fawr. Y mae Ninefeh yn dyfod yn fwy ac yn ardderchocach bob dydd—yn ddychryn ac yn eiddigedd yr holl fyd. Ond y mae ei dagrau oll wedi sychu i fyny yn awr—a'i balchder yn cyrhaeddyd hyd at y cymmylau. Y mae brenin balch ffroen-uchel, yr hwn nid oes ganddo ofn Duw o flaen ei lygaid, a'i theyrnwialen yn ei law. Ond y mae Duw yn penderfynu "ymweled â ffrwyth mawredd calon Assur, ac â gogoniant uchelder ei lygaid ef." Pan oedd dyn da a sanctaidd yn frenin ar Judah, daeth Sennacherib, y brenin balch a drwg a byddin gref fawr i fyny yn erbyn Jerusalem, a dywedodd eiriau cableddus ar Dduw Mawr Israel.

Gwelid byddin fawr Ninefeh un hwyr nos haf yn gwersyllu gerllaw muriau Jerusalem. Yr oedd eu helmedau yn disgleirio ym mhelydrau haul y prydnawn—ac yr oeddynt oll yn gwneud yn sicr am gael buddugoliaeth dranoeth. Ond daeth angel yr Arglwydd ganol nos ar draws y gwersyll, ac ar wyliadwriaeth y boreu cafwyd 185,000 yn gorwedd yn farw ar y maes—

"O fro fras Assyria y gelyn fel blaidd
Ymdorai i'r gorlan er difa y praidd;
A'i lengoedd mewn gwisgoedd o borphor ac aur,
Wrth hulio glyn Salem, a'i lliwient yn glaer.

Eu harfau o hirbell a welid o'r bron,
Fel llewyrch sêr fyrddiwn ar frig y werdd don;
A thrwst eu cerddediad a glywid o draw,
Fel rhuad taranau trwy'r wybren gerllaw.

Eu chwyfiawg fanerau, cyn machlud yr haul,
A welid fel coedwig dan flodeu a dail;
Eu chwyfiawg fanerau, ar doriad y wawr,
Fel deiliach gwywedig, a hulient y llawr.

Daeth angel marwolaeth ar edyn y chwa,
Gan danllyd anadlu i'w gwersyll ei bla;
Nes gwneuthur pob calon, a llygad a grudd,
Mor oer ac mor farw a delw o bridd."

—*Ymofynydd*, 1854, tud. 21.

Dychwelodd y brenin balch wedi ei ddarostwng i'w ddinas ei hun; a phenderfynodd Duw wneud ei syrthiad a'i ddinystr yn gyflawn, canys fel yr oedd yn ymgrymmu un diwrnod o flaen ei eilun-dduw Nisroch, gwanodd ei

fab ei hun gleddyf i'w galon, a syrthiodd yn farw ar balmant y deml. Nid llawer yn rhagor sydd i'w ddywedyd am Ninefeh ar yr amser hwn. Hanner can mlynedd yn ddiweddarach yr ydym yn darllen am un arall o'i brenhinoedd yn ennill buddugoliaethau mawrion ac yn gwneuthur gwledd fawr o goffadwriaeth am danynt, yr hon a barhaodd bedwar mis.

Y mae'r prophwyd Ezeciel yn ei chymmharu ar yr amser hwn i gedrwydden yn Libanus, yn bwrw ei changhenau mawrion yn uwch na holl goed ereill y ddaear,—a holl genhedloedd y byd yn byw dan ei chysgod.

Gadawn Ninefeh yn awr am dipyn bach yng nghanol ei phomp a'i balchder a'i hardderchogrwydd, i ddywedyd ychydig eiriau am bwngc arall mewn perthynas iddi hi. Yr oedd wedi cyrhaedd pinacl ei mawredd; ond yr oedd yr amser yn fuan i ddod pan y buasai ei phalasau yn gorwedd yn y llwch, a'i myrddiynau trigolion wedi eu gwasgar fel ûs o flaen y gwynt.

Prophwydoliaethau am Ninefeh.—Ym mhlith pechodau mawrion ereill ag oedd Ninefeh yn euog o honynt, yr oedd un yn neillduol a fu yn achos dioddefaint iddynt. Yr oedd wedi ymddwyn yn greulon iawn tuag at Judah ac Israel, pobl priodol Duw, am y rhai y dywedwyd, "Melldigedig fyddo a'th felldithio." Yr oedd Ninefeh wedi "melldithio" Israel. Yr oedd felly wedi dwyn arni ei hunan "felldith Duw."

Yn un o bentrefi Galilea yr oedd yn byw, yn amser brenhiniaeth Hezecïah, brophwyd i Dduw a'i enw Nahum. Yr oedd yn nyddiau ei ieuengctid wedi gweled ei gyfeillion a'i gymmydogion yn cael eu llusgo gan fyddinoedd Brenin Assyria i gaethglud,—eu cartrefi dedwydd yn cael eu gadael yn wag, a llawer o honynt mewn ychydig amser yn myned i ddadfeiliad. Hawdd y gellir tybied fod y dyn da hwn yn teimlo'n ofidus o herwydd fod ei gydwladwyr yn ocheneidio mewn gwlad ddieithr. Nawr, ystyr y gair Nahum yw "Diddanydd," a thrwy'r prophwyd hwn yr oedd Duw yn myned i *ddiddanu* calonau trallodedig y deuddeg llwyth, trwy ragddywedyd dinystr y ddinas a'r deyrnas hono oedd wedi eu llusgo hwy o'u cartrefi a'u gosod mewn caethiwed—a llawer o honynt mewn cadwynau. Prophwydodd Nahum tua 100 mlynedd ar ol Jonah. Y mae yn dechreu ei brophwydoliaeth â'r geiriau sobr yma, "*Baich Ninefeh!*" Yr oedd hyn i barotoi ei wrandawyr ar gyfer y gwaeau a'r truenusrwydd oedd yn aros y ddinas. "A llifeiriant yn myned trosodd y gwna Efe drangc ar ei lle hi."—"Canys tra yr ymddyrysont fel drain, a thra meddwont fel meddwon, ysir hwynt fel sofl wedi llawn-wywo."—"Ysglyfaethwch arian, ysglyfaethwch aur; canys nid oes diben ar yr ystor, a'r gogoniant o bob dodrefn dymunol. Gwag a gorwag ac anrheithiedig yw hi."—"Wele dy bobl yn wragedd yn dy ganol di; pyrth dy dir a agorir i'th elynion: tân a ysodd dy farrau."—"Yno y tân a'th ddifa, y cleddyf a'th dyr ymaith, efe a'th ysa di fel pryf y rhwd."—"Dy rai coronog sy fel locustiaid, a'th dywysogion fel y ceiliogod rhedyn mawr, y rhai a wersyllant yn y caeau ar y dydd oerfelog, ond pan gyfodo yr haul, hwy a ehedant ymaith, ac ni adwaenir eu màn lle y maent."—Y mae y geiriau yma yn rhagfynegu dinystr perffaith y ddinas ardderchog hon. Mynegant hefyd fod y dinystr yma i gael ei ddwyn oddiamgylch mewn rhagor nag un ffordd. Yr oedd y dinystr i fod yn berffaith a chyflawn. Ond a oedd rhyw siawns i'r pethau yma i ddyfod byth yn wir? Pa faint o'r rhai a wrandawant ar Nahum a'i cyfrifent ef yn un wedi ynfydu! Beth! Ninefeh, brenhines dinasoedd y byd, â'i muriau o dri-ugain milldir o amgylchedd a chan troedfedd o uchder, ac mor llydan fel y gallasai tri cherbyd yru ochr yn

ochr ar eu pen! A oedd rhyw argoelion y deuai dywediadau y gwr isel yma o Galilea yn wir? Buasai'r holl fyd yn gwaeddi, "Ammhosibl! Ammhosibl!"

Ond gair Duw ydoedd ac yr oedd yn rhaid ei fod yn wir! Felly ym mhen 150 o flynyddau wedi hyn—pan oedd y prophwyd yn ei fedd—syrthiodd Ninefeh gyda dinystr ofnadwy—ie, dinystriwyd hi i'r fath raddau fel na wyddid am gannoedd ar gannoedd o flynyddau ym mha le yr oedd gynt yn sefyll.

Daeth byddinoedd y Babyloniaid a'r Mediaid i fyny a gwarchaeasant hi. Ac fe ddywed hanes i'w dinystr gael ei ddwyn o amgylch, 1. Trwy ddwr. Yn ystod y gwarchae, torodd yr afon Tigris dros ei cheulanau a rhwygodd y muriau fel y gallodd y gelyn fyned i mewn a chymmeryd y ddinas. Dyma'r llifeiriant y soniodd Nahum am dano, (i. 8). (2.) Pan oedd byddinoedd Ninefeh yn gwledda, ac yn ymlawenhau uwch ben eu buddugoliaethau diweddar, yr ymosododd Arbaces, Brenin y Mediaid, arni yn ddisymmwth ac ar hyd y nos, ac y gwnaeth laddfa ddychrynllyd, (i. 10.) (3.) Cariodd Arbaces ymaith swm dirfawr o aur ac o arian i'w ddinas frenhinol ei hun, Ecbatana, (ii. 9.) (4.) Pan welodd Brenin Ninefeh fod y ddinas wedi ei chymmeryd, rhuthrodd i'w balas ei hun, a chasglodd yng nghyd ei holl olud, gosododd dân ynddynt, a thaflodd ei hunan hefyd i'r tân a bu farw. (5.) Wedi i Nebuchodonosor adeiladu Babylon, aeth safle Ninefeh yn hollol anadnabyddus. Yr oedd hanesyddwyr am gannoedd o flynyddau yn methu cydweled gyda golwg ar y man lle'r oedd ei hadfeilion. Yr oedd y Tigris yn dawel yn ymddylifo trwy'r gwastadedd lle bu palasau Ninefeh unwaith yn sefyll. Nid oedd dim i'w ganfod yn awr ond moel-gloddiau diffaith, lle bu temlau a gerddi a thyrau unwaith yn sefyll. Cyflawniad hynod o brophwydoliaeth Nahum.—"Ni adwaenir eu man lle y maent."—"Anrheithwyd Ninefeh, pwy a gwyna iddi?"—"Gwag a gorwag ac anrheithiedig yw hi."—"Ei phendefigion a orweddant yn y llwch, ei phobl a wasgarwyd ar y mynyddoedd ac ni bydd a'u casglo."

Ac a ddaw Ninefeh etto i glawr?—a glywir etto son am dani? Y mae wedi ei chladdu mewn bedd distaw dwy fil o flynyddau. A oes rhyw un erioed wedi meddwl am agor ei beddrod,—am dori i mewn i'r moel-gloddiau ar lan y Tigris, i gael gafael yn rhai o weddillion prif-ddinas yr hen fyd? Beth am Ninefeh *yn awr?* Ceisiwn ateb.

Adfeilion Ninefeh.—Un nos, ym mis Tachwedd, 1845, yr oedd hen Arab a'i deulu yn eistedd yn eu bwthyn yng nghanol yr anialwch yn agos i'r Tigris. Ychydig o gyssuron oedd yn eu hamgylchu yn eu bwthyn gwael. Yr oedd ychydig gŵn yn ymgwrcydu gerllaw'r tân, Yr oedd rhywbeth yn darawiadol yn ymddangosiad yr hen wr,—yn ei glogyn hir a'i dwrban gwyn, yn gystal a'i lygad bywiog a threiddiol. Pennaeth ydoedd, ac yr oedd lladron wedi ymosod arno. Yr oeddynt wedi ei amddifadu o'i holl feddiant ac wedi ei adael yn dylawd ac yn ddiamgeledd, fel yr oedd yn dda ganddo gymmeryd noddfa yn un o fwthynau tlotaf pentref tlawd Naifa. Gyda'r hwyr dyma ymdeithydd yn dyfod i mewn, a'i gyfeillion gydag ef, i ddrws y bwthyn, ac yn gofyn am letty dros nos. Eisteddodd pennaeth y parti o ymdeithwyr ar sach yng ngornel y bwthyn, a dechreuodd siarad wrth Awad, (oblegid dyna oedd enw yr hen wr) am Assyria a Ninefeh. Disgleiriodd gwyneb-pryd hen dad barfog yr anialwch yn union gyda'r gair. Dechreuodd adrodd llawer o ystoriau am Nimrod ac ereill, ac am eu palasau cuddiedig, y rhai a ddisgrif-

iodd fel yn gorwedd oddi tan y man lle'r oeddynt hwy ar y pryd yn eistedd. Yr oedd yr ymdeithydd a'i gyfeillion yn gwrandaw yn astud iawn. Ceisiasant gysgu gystal ag y gallent ar ol lludded y dydd; ond yr oedd yr hen Arab wedi llanw eu breuddwydion â meddyliau am feddrod mawr temlau a thyrau a phalasau yr hen fyd, fel nad oedd modd yn y byd iddynt gael cwsg i'w hamrantau.

A phwy oedd y gwr dieithr yma ym mwthyn yr Arab ond gwr o'r ynys yma, un o'n cydwladwyr ein hunain—yr enwog Mr. Layard. Gadawodd ei gartref a'i wlad i'r diben o dreio cael allan weddillion yr hen Ninefeh. Gorfu arno fyned trwy lawer iawn o beryglon er mwyn hyn. Ond gorchfygodd ei ddewrder, ei dawelwch, a'i synwyr da, bob rhwystr.

Nid hwn oedd ymweliad cyntaf Mr. Layard a'r moelgloddiau o amgylch Mosul; ac nid efe oedd y cyntaf i gael allan y pethau rhyfedd oedd yno yn gladdedig. Yr oedd un Botta, *Frenchman*, eisoes wedi bod yn cloddio yn yr un gymmydogaeth. Ond y mae darganfyddiadau Layard yn ddiweddarach ac yn fwy dyddorol, am hyny cyfyngwn ein hunain atynt. Gyda bod y dydd yn gwawrio dranoeth cafodd Layard yr hen Awad yn eistedd gerllaw'r sach, ac yn dywedyd wrtho fod yr haul i fyny, a'i fod wedi hurio amryw ddynion i gael ddechreu ar y gwaith. I fyny a Mr. Layard o'i orphwysfa, ac fel yr oedd yn eistedd wrth y drws, gwelodd foelglawdd mawr, yr hwn a adnabyddid wrth yr enw moelglawdd Nimroud. Yr oedd yn obeithiol iawn y gallasai wrth gloddio i hwn ddyfod o hyd i rai adfeilion hen iawn a dyddorol—fe allai rai o weddillion yr hen brif-ddinas Assyriaidd, sylfaenau yr hon a osodwyd i lawr 4000 o flynyddau yn ol gan Nimrod! Beth wyddai efe lai na allai efe ddyfod ar draws y temlau a'r palasau hyny a welwyd unwaith gan Jonah ac Ezeciel, ac yn y rhai y bu Sennacherib unwaith yn byw ac yn addoli. Nid oes angen dywedyd am yr anhawsderau mawrion y gorfu i'r gwr enwog yma fyned trwyddynt. Yr oedd pobl y wlad yn eiddigeddu wrtho. Yr oedd rhai yn tybied ei fod yn dyfod i gloddio am aur a gwneud ei hunan yn gyfoethog—yr oedd eraill yn meddwl fod ganddo ryw fradwriaeth yn erbyn y llywodraeth—yr oedd eraill yn dywedyd y dinystriai feddau y prophwydi, ac y tynai ddigofaint Duw i lawr. Ychwaneger at hyn fod y dynion Arabaidd ar ol dechreu cloddio yn fynych yn cwympo maes â'u gilydd. Ond yr oedd Layard yn farnwr doeth, yn gystal a dyn dewr. Tawelodd eu hymrysonau ac o'r diwedd gwnaeth hwynt oll yn ddedwydd ac yn foddlon i'w wasanaethu.

Rhaid fod golwg hynod ar y gweithwyr yma. Y mae'r Caldeaid, yn eu gwisgoedd streip, a'u capiau hynod yn ddiwyd yn cloddio yn y ddaear. Arabiaid gwyllt yr olwg arnynt, a gwallt hir, ac aelodau noethion, pob un â'i fasged yn ei law, yn gweithio yn y trensys a'r pyllau tan-ddaearol. Wrth ddyfod i fyny i arllwys eu basgedi y maent yn neidio ac yn gwaeddi yn y modd mwyaf hynod. Y maent yn union yn dychwelyd, ac etto y maent o'r golwg, yng ngholuddion y ddaear, tra yn awr ac yn y man y mae adseiniau gwylltion o fiwsig Kurdishaidd i'w clywed yn esgyn o wahanol barthau yr adfeilion,

Bu Mr. Layard yn llwyddiannus iawn. Mor gynted ag y dechreuodd dwrio sylweddolwyd ei obeithion. Yn gyntaf cafwyd darnau o bridd-feini a chrochenyddiaeth â'r llythyrenau o ffurf cyniog, *wedge-shaped* neu *arrow-headed* yn argraphedig arnynt. Bob dydd yr oedd y gweithwyr yn dwyn rhyfeddodau newyddion i'r golwg—*specimens* ardderchog o gerfiadaeth mewn

marmor ac alabaster—ffurfiau o wahanol fathau wedi eu gweithio allan o'r cerrig *(bas-relief)* yn gosod allan frenhinoedd a cherbydau, dinasoedd a gwarchaeau, caethion, offeiriaid a choedydd sanctaidd. Ar lechau eraill yr oedd *helwriaeth* yn cael ei osod allan fel pe byddai'r plant yn dwyn cariad at yr un peth a'u tad Nimrod. Yr oedd yno hefyd dyfeisiadau hynod iawn wedi eu paentio mewn lliwiau disglaer ar bridd-lechau. Nid y ceffylau yw y rhai lleiaf hynod ym mhlith y rhyfeddodau yma. Y mae Mr. Layard yn sylwi mor dlws a pherffaith ydynt o ràn ffurf. Y maent fynychaf wedi eu cuddio â *trappings* ardderchog, ac ar garlam gwyllt, fel pe byddent ar ruthro i ryfel; yn atteb yn berffaith i ddisgrifiad y Prophwyd, "A'u meirch sy fuanach na'r llewpardiaid, a llymach na bleiddiaid yr hwyr." (Hab. i. 8.) Tra mae'r dynion ar eu cefnau yn dwyn i'n cof ddisgrifiad Ezeciel, "yn wŷr ieuainge dymunol, yn dduciaid a thywysogion i gyd, yn marchogaeth meirch." Y mae yno ddarluniau tarawiadol iawn o warchae dinasoedd, —milwyr clwyfedig yn trolio oddiar y tŷrau,—menywod yn tynu eu gwallt, yr hwn sydd yn arwydd o alar yn y Dwyrain,—neu ynte yn estyn eu breichiau ac yn gofyn am drugaredd oddiar ddwylaw eu gelynion. Ar ereill darlunir y gelyn yn gosod eu hysgolion i ddringo'r muriau, neu yn dwyn eu peiriannau rhyfel i weithrediad, eu hyrddod *(battering rams)* i guro'r muriau i lawr. Os bydd y gwarchae drosodd, fe welir y gorchfygwr yn arwain milwyr caeth yng nghyd â'r plant a'r menywod a'r ysbail tu ol i'w gerbyd mewn gorfoledd;—dynion yn cario penau y rhai a laddasant mewn rhyfel ac yn eu gosod wrth ei draed. Dyma'r ffordd oedd ganddynt, fel y gwyddom oddiwrth y Beibl, i rifo lladdedigion y gelyn (2 Bren. x. 8.)

Braidd y mae achos dywedyd nad oedd dim o'r manteision ysgrifenu sy genym ni gan drigolion Ninefeh. Ni wyddid dim y pryd hwnw am brinto, am bapur ac ysgrifenu. Y pwngc mawr ganddynt oedd ynte pa fodd y gallent draddodi i'r oesoedd i ddod hanes eu cenedl—hanes eu brenhinoedd, eu rhyfelwyr, eu brwydrau, a'u buddugoliaethau. *Defnyddiodd eu hanesyddwyr hwy yr* ANG *yn lle'r ysgrifell.* Cerfiasant eu hanesiaeth ar y meini. Yn lle llyfr-gelloedd a llyfrau, yr oedd ganddynt hwy eu tai a'u muriau, eu palasau a'u temlau yn guddiedig â darluniau yn gosod allan gofnodion yr ymherodraeth. Y mae Job (xix. 23, 24) yn cyfeirio at yr arferiad yma o ysgrifenu ar y meini, "O nad ysgrifenid fy ngeiriau yn awr! O na argreffid hwynt mewn llyfr! O nad ysgrifenid hwynt *yn y graig dros byth á phin o haiarn ac á phlwm!*" A phwy nad yw yn cofio i'r deg gorchymyn i gael eu hysgrifenu *ar ddwy lech gareg.*

Y mae'r digwyddiadau yn hanes Assyria felly mewn modd hynod wedi eu dwyn i'r goleu drachefn, wedi bod dros 2000 o flynyddau yn guddiedig, trwy gloddio i fyny y *Llyfr-gelloedd cerig* hyn. Pe buasent wedi eu hysgrifenu ar bapur neu ar groen buasent wedi malurio er ys oesoedd; ond y mae Rhagluniaeth wedi eu cadw ar glawr mewn cromgell *(vault)* yn yr anialwch, tra mae uwch ugain o ganrifoedd wedi chwythu drostynt, ac y maent yn awr yn cael eu codi i fyny yn dystiolaeth o wirionedd hanesiaeth y Beibl.

Ond awn ym mlaen i adrodd am ystori yn ychwaneg am y darganfyddiadau rhyfedd yma. Un diwrnod pan oedd Mr. Layard ar ei ffordd at y moelglawdd, dyma ddau Arab yn gyru i fyny ato nerth garau'r ceffylau. Ac meddai un o honynt, "O Bey! brysiwch. gyrwch—y maent wedi cael gafael ar Nimrod ei hunan. Mae'n rhyfedd! Mae'n wir—yr ydym wedi ei weled â'n llygaid ein hunain." Pan ddaethant i fyny i'r fán, cafwyd y gweithwyr

Arabaidd oll o amgylch i un gwrthrych. Pen dyn, mawr iawn ydoedd, wedi ei gerfio o alabaster, a'r rwbis newydd ei godi oddi arno. Gwenodd Mr. Layard ar eu tyb. Ac fe gredodd ei hunan, a thrôdd ei grêd allan yn gywir, mai pen llew neu darw asgellog ydoedd, corph aruthrol yr hwn oedd etto yn gladdedig yn y ddaear. Hwn oedd y darganfyddiad pwysfawrocaf oedd etto wedi ei wneud: ac er mwyn symmud ymaith y dychryn oedd yr ymddangosiad wedi greu, parodd fod lluoedd o ddefaid i gael eu lladd, a gwledd i gael ei pharotoi i'r holl Arabiaid yn y pentref lle yr oeddynt yn cysgu. Galwyd ychydig gerddorion i mewn hefyd, a bu yno fiwsig a dawnsio hyd ganol nos.

Y mae Mr. Layard yn rhoddi disgrifiad hynod o ddyddorol o symmudiad y delw mawr oddiwrth y moelglawdd hyd lanau y Tigris. Danfonodd rai o'r Arabiaid i'r mynyddau i dori coed er mwyn gwneud wagen gref i'w gludo. Prynodd bâr o ecstrïau haiarn, y rhai a berthynent gynt i M. Botta; bandiwyd y *wheels* â chylchau haiarn. Gosodwyd tri thrawst yn groes i'r ecstri, ac amryw drawstiau yn groes i'r rhai hyn drachefn. Gosodwyd *rings* haiarn mawrion wrth y rhai hyn, i osod y rhaffau ynddynt, er galluogi yr Arabiaid yn gystal a'r *buffaloes* i lusgo y cerbyd. Daeth y wagen hynod yma yn wrthrych o syndod i drigolion Mosul, a daeth cannoedd yno i'w gweled. O'r diwedd daethpwyd â'r wagen i bit, gollyngwyd y tarw i lawr o'i le wrth *rollers* tewion, wedi eu seimio yn dda. Amser pryderus ydoedd. Yr oedd y Caldëaid a'r Arabiaid yn hanner ynfyd gan yr *excitement.* Yr oedd yr awyr yn adsain gyda'u miwsig a'u bloeddiadau rhyfel. Yn ofer yr oedd Mr. Layard yn defnyddio ei *whip* o groen hippopotamus, yn ofer yr oedd yn taflu clyts at y rhai mwyaf ei swn, er mwyn eu cadw yn llonydd. Mawr oedd ei siomedigaeth, pan, wedi symmud ychydig, y darfu i'r rhaffau oll roddi ffordd, ac y daeth y tarw mawr yn bendramwnwgl i'r llawr! Yr oedd Mr. Layard yn disgwyl ei weled yn briwo yn gandryll, ond fel yr oedd goreu'r modd ni fu nemawr gwaeth. Etto adnewyddodd yr Arabiaid eu *war-cries*, parhaodd eu ysgrechiadau a'u dawnsio trwy'r nos; ond yn foreu, dranoeth, yr oeddynt oll wedi dychwelyd etto at eu gwaith, ac yr oedd y tarw yn barod etto i'w lusgo at yr afon. Gwisgwyd y buffaloes, ond yr oeddynt yn gwrthod llusgo. Nid oedd y Caldeaid a'r Arabiaid, modd bynag, mor anfoddlawn,—ffurfiwyd *procession*, Mr. Layard ei hunan yn arwain ar geffyl. Ar ei ol yr oedd *band* o *musicians*, a'u *drums* a'u *fifes;* ar ol hyny 'r oedd y cart yn cael ei lusgo gan 300 o ddynion, yn ysgrechain nerth eu cegau. Yr oeddynt yn myned rhag eu blaen yn eithaf dymunol, yn llusgo'r llwyth mawr dros y gwastadedd, pan y digwyddodd damwain ac y cawsant eu rhwystro etto. Suddodd y *wheels* mewn pwll dwfn, yr hwn oedd wedi ei guddio â mwd a changhenau coed, ac ofer oedd yr Arabiaid yn tynu ac yn gwaeddi. Torodd y rhaffau ac ni syflai y *wheels.* Boreu dranoeth, modd bynag, buwyd yn fwy llwyddiannus, ac fe'i llusgwyd o fewn ychydig gannoedd o latheni at yr afon. Wedi myned trwy ychydig yn rhagor o anhawsderau, llwyddwyd i'w gael i lithro'n araf i lawr ar y *raft.* Yr oedd y cwbl yn ddiogel yn awr, a Mr. Layard yn llawen oherwydd ei lwyddiant. Yr oedd yr Arabiaid yn synnu'n ddirfawr beth allasai ei amcan fod yn ymdrafferthu cymmaint gyda'r ceryg mawrion yma. Yr oedd un o honynt yn meddwl y buasid yn eu cludo i balas y frenhines, yr hon gyda'u deiliaid oedd yn addoli delwau o'r fath. Beth allai fod yn fwy naturiol? Cyrhaeddodd y "Tarw Asgellog" dref

Bagdad yn ddiogel—a mwy na hyny y mae wedi cyrhaedd Llundain, lle y gall y sawl a chwennycho ei weled yn awr, yn y *British Museum*, gyda llawer yn rhagor o weddillion Ninefeh.

Y mae Mr. Layard wedi hyny wedi dyfod o hyd i lawer iawn o ddelwau cyffelyb i hwn. Ceir hwynt wrth ddrysau temlau a phalasau. Y mae ganddynt ben fel dyn—adenydd fel eryr—a chorph fel llew.

Nid oedd gan yr Assyriaid ddim Beibl i ddywedyd wrthynt am y Gwir Dduw; ond fe dybir oddiwrth y gwrthrychau yma fod ganddynt ryw dybiau am Ddoethineb a Gallu a Hollbresennoldeb y Goruchaf. Dywedir fod y pen dyn yn dynodi *gwybodaeth* neu *ddoethineb;* corph y llew yn dynodi *nerth;* ac adenydd yr eryr yn dynodi *bod yn holl bresennol.* Y mae Mr. Layard yn tybied fod gweddillion dau balas arall yn yr un gwastadedd; felly nis gwyddom pa oleuni newydd a rhyfedd a deflir etto ryw ddiwrnod ar hanes yr hen fyd.

Y mae yn syndod y modd y mae'r ceryg yma, wedi bod yn guddiedig am gynnifer o ganrifoedd, yn ein galluogi i wybod mor gyfiawn oedd barnau Duw yn erbyn Ninefeh. Dywedant wrthym heddyw mor falch, mor uchel, mor greulawn oedd y ddinas yma. Y mae llawer o honynt yn gosod allan y rhyfelwyr yn damsang eu gelynion mewn modd creulawn dan eu traed, ac yn ymorfoleddu uwch eu penau. Druan o Ninefeh! ni chafodd erioed wybod yr hyn a ddywed y Beibl wrthym *ni*—"Cerwch eich gelynion."

Y mae un ffaith hynod etto teilwng o'i nodi. Y mae Mr. Layard wedi marchogaeth o amgylch i'r holl foelgloddiau lle y tybir fod gweddillion Ninefeh, ac y maent yn mesur 60 milldir. A'r hyn a ddywed Jonah yw ei bod yn *daith tri diwrnod;* a chan fod ugain milldir yn cael eu cyfrif yn daith diwrnod, fe welir mor agos yw mesuriad yr ymdeithydd Prydeinig i'r hyn ydoedd mesuriad y Prophwyd 2500 o flynyddau o'i flaen.

Ninefeh yn y Farn.—A oes dim yn rhagor i'w ddywedyd am Ninefeh? Oes! y mae un peth pwysig i'w adrodd am Ninefeh. Yr ydym wedi cyfeirio at Ninefeh yn ei hardderchogrwydd—Ninefeh yn ei machludiad a Ninefeh yn ei hadfeilion. Yr olaf a'r mwyaf sobr o'r cyfan ydyw *Ninefeh yn y farn!* Oni welir y moelgloddiau yma etto yn ymgodi? Oni welir etto gyda sain udgorn yr archangel, miliynau ar filiynau o'i rhyfelwyr yn codi o'u beddau! Ceisiwn ddychymmygu sylweddoliad y disgrifiad ysgrythyrol,—Y Barnwr Mawr yn eistedd ar orsedd wèn fawr, mewn gwisgoedd cannaid, a choron gogoniant ar ei ben. Oddiwrth ei wyneb ef y ffodd y ddaear a'r nef; a'r meirw fychain a mawrion a safant gerbron Duw, a'r llyfrau a agorir. Caiff dinas ar ol dinas, a theyrnas ar ol teyrnas eu galw i fyny i atteb o flaen yr orseddfainge hono. A bydd miloedd paganiaid Ninefeh yn eu plith; ei phennaethiaid coronog; ei mawrion balch; ei milwyr gwaedwyllt, ei phobl euog, "fel y locustiaid o ran rhif." Pa un o'r cenhedloedd ymgynnulliedig a elwir yn gyntaf i roddi ei chyfrif? Un y mae ei thrigolion wedi byw mewn oes mwy dedwydd o'r byd. Trigasant mewn gwlad Gristnogol—gwlad o Feiblau, o eglwysi ac ysgolion Sul, gwlad o ragorfreintiau Crefyddol. Gwlad oedd enw'r Iachawdwr yn adnabyddus iddi o'i mabandod. Ond och! esgeulusasant yr iachawdwriaeth. Ac y mae'r Barnwr Mawr fel pe byddai yn dywedyd, "Pwy sydd yma yn bresennol i ddwyn tystiolaeth yn erbyn y rhai hyn?—Wele lu o hen baganiaid, newydd godi o foel-gloddiau Assyria fel pe byddent yn dynesu. Gallwn ddychymmygu'r Barnwr yn dweyd, "Gadewch i wyr Ninefeh lefaru, y mae

ganddynt hwy dystiolaeth yn erbyn y genedl euog yma."—"Yr oeddym ni," dyma'r dystiolaeth, "yn byw mewn oes foreu iawn, ac ychydig mewn cymmhariaeth oedd ein rhagorfreintiau; pechasom lawer yn erbyn yr Arglwydd; ond yn ei drugaredd danfonodd gennad ffyddlawn atom i'n rhybuddio o'n pechodau, ac i'n harwain i edifeirwch. Edifarhasom. Credasom ym mhrophwyd Duw—arbedwyd ein dinas! Ond O, na fuasem yn gwybod, na fuasem wedi mwynhau rhagorfreintiau y Cristnogion hyn! Nid oedd genym *ni* ddim un Beibl i'n harwain *ni*, dim un Iachawdwr i'n dysgu fel oedd ganddynt *hwy*,—ni welodd ein llygaid ni, ni chlywodd ein clustiau ni erioed bregethiad y newyddion da o lawenydd mawr ag oedd yu eu meddiant *hwy*.

Pa beth a ddywed Barnwr yr holl ddaear wrth gyfarch pechaduriaid gwlad Gristnogol? "Gwyr Ninefeh a gyfodant ar ddydd y farn gyda'r genhedlaeth hon, ac a'i condemniant hi: am iddynt hwy edifarhau wrth bregeth Jonah, ac wele fwy na Jonah a fu *gyda chwi!* Cawsoch chwi bob manteision, cawsoch yr efengyl yn eich plith, cawsoch weinidogion i'ch rybuddio. Yn ifange nac yn hen ni wrandawech arnaf. Os darfu i wŷr Ninefeh mewn oes eilun-addolgar edifarhau wrth bregeth Jonah, pa faint mwy euogrwydd *y rhai hyn* y rhai ydynt wedi troi clust byddar i alwadau'r efengyl? Y Ninefëaid a'u condemniant! Y mae Beiblau ganddynt, ond heb eu darllen! Y maent wedi cael rhagorfreintiau mawrion ond y maent wedi eu esgeuluso. Y mae pob peth yn eu condemnio! Y mae Jonah yno yn bresennol, i adrodd pa fodd, pan y llefodd efe, "Deugain niwrnod fydd etto, a Ninefeh a gwympir," y darfu i'r ddinas fawr hono ymgrymmu mewn tristwch ac edifarhau mewn sachlian a lludw.

Ddarllenwyr! Rhaid i *chwithau* sefyll eich prawf ar y dydd mawr; cewch gyfarfod â gwŷr Ninefeh ar y diwrnod hwnw! Ië, cewch gyfarfod a hwy! Dywedwch pa fodd y gwnewch hyny? Cofiwch am y rhagorfreintiau mawrion a gawsoch chwi mewn cymmhariaeth i'r hyn a gawsant hwy—ac ystyriwch cyn rhoddi eich atteb. Cafwyd llawer o drysorau ym moelgloddiau Nimroud a Khorsabad, *ond y mae un trysor na chafwyd yno erioed ac ni cheir byth*, ac y mae genych chwi y trysor hwnw, y mae Beibl genych! O! gymmaint yn well ydyw arnoch chwi nag arnynt hwy! A'r Beibl yn eich llaw yn eich ieuengctid, ac yn alluog i ddarllen yn eich iaith eich hun ryfedd weithredoedd y Duw Mawr. A pha beth am y paganiaid druain a edifarhasent 3000 o flynyddau yn ol! A dreiglodd y dagrau dros ruddiau y Ninefëaid o herwydd pechod, ac onid ych chwi erioed wedi colli deigryn o'i herwydd? A ddarfu iddynt hwy syrthio ar ei penliniau a gwaeddi ar Dduw Mawr y nef am drugaredd, ac onid ydych *chwi* erioed wedi llefain, "O Arglwydd bydd drugarog!" *Gwell yn nydd y farn fydd cyflwr pagan o Ninefeh na chyflwr Prydeiniwr annuwiol.* I'r sawl y mae llawer wedi ei roddi oddiwrth hwnw y byddys yn gofyn am lawer.

Eheded ein meddyliau unwaith etto at y moelgloddiau ar lanau y Tigris. O'r fath olygfa sobr a difrifol ydyw! Yr oedd yno fyrddiynau o wrrywod a benywod yn fywiog wrth eu gorchwylion unwaith; yn awr nid oes yno ddim ond creigiau a sorod distaw, ceryg a morter a phriddfeini, heb un arwydd o fywyd oddieithr

"Dyrchiad y mwg yn dorchau."

allan o babellau yr Arabiaid, ac ysgrechiadau y creaduriaid a ymguddiant yn y magwyrydd.

Yn fuan byddwn ninnau yr un wedd. Bydd dynion yn oesoedd i ddod yn troedio ar ein beddau ninnau. Nid yw darlun Ninefeh ond darlun o'r hyn a fydd pawb o honom yn fuan iawn—"*Pridd ydwyt ac i'r pridd y dychweli.*"

Ond beth am hyny, os yw'r efengyl genym, ac yn drysor ein calonau, gwyddom fod yr Iesu wedi diddymu angeu, ac wedi dwyn bywyd ac anfarwoldeb i'r goleuni. A bendigedig fyddwn os cawn ni glywed ei lais ef ar y dydd olaf yn dywedyd, "Ymddeffrowch a chenwch chwi rai sydd yn trigo yn y llwch, a chyfodwch i drigo gydag Ef yn oes oesoedd yn y

"DDINAS AG IDDI SYLFAENI, SAER AC
ADEILADYDD YR HON YW
DUW!" ALIQUIS.

THEODORE PARKER.

LLYTHYR IX.

CRYBWYLLASOM am y llyfr a fwriadai Mr Parker i fod yn brif waith ei oes—Hanes Dadblygiad Crefydd yn y Byd. Meddylddrych mawreddog oedd. Er nas cwblhaodd ef, ac er y gallasai ei waith, pe y gorphenasai ef i fod yn ammherffaith, gan ei fod yn ormod i un dyn, nad pwy; eto campus oedd y bwriad, a diau y caiff rywbryd ei gario allan. Nid gwiw dysgwyl cael gafael ar y ddeddf fawr heb lawer cynyg ofer, nac y byddir yn alluog i olrhain cwrs y dadblygiad heb gyfeiliorni llawer, ond nid erys hyn o nod heb ei gyrhaedd yn y pendraw. Mae gwybodaeth gynyddol yn sicr o osod o'r neilldu draddodiad, anwybodaeth a rhagfarn. Daliai ef fod y darganfyddiadau canlynol yn ddilys:—

Fod Seryddiaeth wedi dystrywio nefoedd leol, ac wedi adferu athrawiaeth yr hollbresenoldeb dwyfol i'w lle priodol, a'i bod hefyd wedi traddodi ei dedfryd ar y gred i fod rhyw oror ar wahan oddiwrth a phell y tuhwnt i'r byd gweledig, lle y cartrefai'r angylion.

Fod Daeareg wedi dystrywio'r mympwy o greadigaeth mewn chwe diwrnod, ac uflern leol.

Fod Bywydeg *(Biology)* yn gwneyd marwolaeth yn naturiol, nid cospawl.

Fod Dyn-anianaeth *(Anthropology)* yn gwadu disgyniad dynolryw oddiwrth un pâr, neu o leiaf yn ei wneyd yn amheus; yn gystal a pherffeithrwydd diamodol dyn ar y cyntaf.

Fod Beirniadaeth Feiblaidd yn dangos nad yw ysprydoliaeth yn gyfyngedig i'r Hen Destament a'r Newydd yn unig, ac nad yw yn anffaeledig yno.

Fod Eneideg *(Psychology)* yn egluro nad yw gweledigaethau, perlewygfeydd, n phethau o'r fath yn wyrthiol.

Fod Crefydd Gymhariaethol *(Comparative Religion)* yn dangos mai un o blith lluaws o ffurfiau o grefydd yw Cristnogaeth; nad yw ysprydoliaeth, dadguddiad, ac ysgrythyrau santaidd, yn gyfyngedig i unrhyw grefydd. Cyrhaeddant oll eu ffurf uwchaf yng Nghrist'nogaeth; ac nid ydynt fel y tybia rhai ond gwawd-luniau *(caricatures)* o grefydd.

Trwy flynyddoedd o ddarllen a myfyrdod diorphwys bu Mr. Parker yn casglu defnyddiau ac yn eu trefnu ar gyfer y gwaith hwn, a thynodd gynllun o'r mwyaf cynhwysfawr a helaeth o hono. Pe cawsai ddeg mlynedd o hamdden weddol, tybiai y gallai ei orphen Ond, och fi, daeth gofalon eraill am ei ben. Nid bywyd tawel West Roxbury oedd bywyd gweinidog, yn enwedig gweinidog o'i fath ef a thros y fath gynulleidfa ag oedd ganddo yn Boston. Torid i mewn ar ei amser mewn llawer ffordd. Galwai cyfeillion o bell ac agos arno. Dylifai gohebiaethau o bob man i mewn, o Loegr, Scotland, India, Germany, o eithafoedd y Taleithiau Dwyreiniol a Gorllewinol. Deuai llythyron oddiwrth gaethion ffoedig: oddiwrth feddianwyr caethion yn y De, yn ffyrnig i ymresymu yn eu ffordd hwy, neu i ymddial; oddiwrth

Galfiniald wedi eu cynhyrfu gan ei ymosodiadau rhesymegol; oddiwrth gyfeillion anadnabyddus yn diolch am oleuni a chysur wedi eu derbyn trwy bregeth neu ddarlith neu lyfr o'i eiddo; neu yn ymofyn am ei gyfarwyddyd mewn rhyw amgylchiad dyrys; ac nid anfynych oddiwrth fyfyrwyr duwinyddol yn holi yng nghylch rhyw gwestiynau celyd ac allan o'r ffordd gyffredin. Yn ystod yr un-flynedd-ar-ddeg ddiweddaf o'i fywyd darlithiai o gwmpas can gwaith bob blwyddyn. Heblaw hyn yr oedd ei barotoadau manwl a chydwybodol ar gyfer y Sabbath. A mwy na'r oll, rhwystrwyd ef gan drafferthon mewn canlyniad i'r *Fugitive Slave Bill.* Oddiar hyny am gryn amser nid oedd ganddo ddydd, na braidd nos ychwaith, y gallai eu galw yn eiddo iddo ei hun. Wele gofnodion o ryw bum niwrnod allan o'i ddydd-lyfr.

"Chwef. 21, 1851. Amserau prudd yw y rhai hyn i fyw ynddynt. Ond buasai yn flin genyf beidio a chael byw ynddynt. Fe ymddengys yn ddyeithr ym mhen canrif neu ddwy i ddyfod, fod ysgolhaig plaen ac isel yn Boston yn cael ei aflonyddu o hyd yn ei efrydiaethau, heb allu ysgrifenu ei lyfr, oblegyd gorfod aros i edrych ar ol caethion ffoedig—ei blwyfolion ei hun!

Chwef. 22. Dydd genedigaeth Washington. Yn ddiwyd iawn gydag achosion caethion ffoedig.

Chwef. 24. Yn anhwylus. Yn ysgrifenu Adroddiad ar ddeisebau yng nghylch caethion ffoedig.

Chwef. 25 Gartref. Yng nghylch achosion Gwrthgaethwasol. Y prydnawn yn y Llys-dŷ gyda'r Pwyllgor Gwrthgaethwasol. Llefarodd Phillips, Sewall ac Ellis. Yn y nos eisteddodd y Pwyllgor Gwyliadwriaeth.

Chwef. 26. Llawer o amser gydag achosion caethion ffoedig" Pa ryfedd na ddaeth y llyfr i ben? Y rhyfeddod yw iddo alla gwneyd dim gydag ef. Ond y mae rhyw 270 o dudalenau mewn llawysgrif wedi agos eu gorphen ganddo. Mae wmredd o nodiadau a thafleni o lyfrau i'w defnyddio yng nghorff y gwaith, ond nid wedi eu trefnu. Mae'r cyullun yn gyflawn. Yr oedd i fod yn bump o lyfrau, a rhenid y rheiny yn benodau, ac yr oedd adranau o dan y rhai hyny drachefn Arferai dynu braslun clir a chyflawn o bob peth ym mlaenllaw, o bob pregeth a darlith, ac ystyriai ei fod yn arbed llawer o amser trwy hyn. Ond nid oes genym ofod i roi dim o gynwysiad y braslun.

Awst 24, 1851, ysgrifena: "Dyma ryw gymaint i'w wneyd:—1. Gorphen a chyhoeddi fy llyfr cyn Awst 24, 1852; 2. Darlithio rhyw 40 neu 50 o weithiau (1851-2); 3. Gwneyd yn well wrth bregethu nag erioed o'r blaen; 4. Gweithio gyda mwy o ddiwydrwydd. Ond pwy a wyr y bydd i mi fod yn alluog i wneyd hyn? Y llynedd mi dorais lawer o waith allan, a pha mor lleied a gwblheais! Daeth y *Fugitive Slave Bill* drygionus, a rhwystrodd fy holl waith. Dichon iddi fod felly eto." Ac ar y dydd diweddaf o'r flwyddyn hon (1851) cawn y cofnodiad hwn: "Yn fuan bydd y flwyddyn ar ei therfyn, a'r fath flwyddyn yw wedi bod i Boston, y fath flwyddyn i mi! Pa mor lleied y gallaswn i ragfynegu ei dygwyddiadau, pa un ai personol a'i cyhoeddus. Y flwyddyn nesaf—pa mor ansicr yw! Ond bydd i'r un Tad—ie, Mam yn gystal—a'm bendithiodd i a holl ddynolryw hyd yn hyn, eu bendithio oll yn y dyfodol. Fy Nhad ar y ddaear ac yn y nefoedd! Tad a Mam hefyd! cymhorth fi i wybod dy wirionedd, i ewyllysio dy gyfiawnder, i deimlo a chyfranogi o'th gariad, i ymddiried yn dy santeiddrwydd anfeidrol, ac i fyw yn ddifeius a hardd o flwyddyn i flwyddyn. Nis gwn ddirgelion amser; cymhorth fi i ddysgu gwersi trag'wyddoldeb, byw yn llawn o wirionedd a chyfiawnder, llawn o santeiddrwydd a chariad a ffydd ynot Ti!"

Ym mis Mai, 1854, pasiwyd y *Kansas-Nebraska Bill,* un arall o'r mesurau y mae America yn ddyledus am danynt i wleidiadwyr y De a'u cynhalwyr yn y Gogledd. Yr achlysur o'i ddugiad i mewn oedd *Bill* i sefydlu llywodraeth diriogaethol yn Nebraska, yn ol pa un buasai hawl gan y diriogaeth i dderbyn neu wrthod Caethwasanaeth. Gwrthwynebid ef gan y blaid gaethwasol, oblegyd yr ofnent golli o'u dwylaw faes mor eang a Nebraska. Maes o law ofnent y gallasai'r diriogaeth gael ei rhanu yn ddwy neu dair o daleithiau rhyddion. Cynygwyd gwelliant ar y *Bill* gwreiddiol gan Mr. Douglas o Illinois—brawd anwyl i Mr. Mason, yr hwn sydd, neu oedd yn ddiweddar iawn yn swyddog y De yn y wlad hon, awdwr y *Fugitive Slave*

Bill—mewn effaith yn diddymu y *Missouri Compromise Bill*, yn ol pa un yr oedd Caethwasanaeth yn waharddedig yn nes i fynu na 36° 30′ lledred gogleddol. Y gwelliant a gariwyd, a daeth y *Kansas-Nebraska Bill* i'w restru gyda'r *Fugitive Slave Bill*, fel prawf o leithra ac ystwythder diegwyddor mwyafrif gwleidiadwyr y Gogledd ar y pryd. Effeithiodd pasiad y *Bill* hwn fwy o syndod a chyffro a braw yn y Gogledd na'r *Fugitive Slave Bill* ei hun. Gwelid yn amlycach pa beth oedd ym mryd y Deheuwyr. Dyma'r mesur a barodd i Mr. Charles Sumner draddodi yn y Senedd ei araith gofiadwy ar "Y Trosedd yn erbyn Kansas." Costiodd yr araith hono yn ddrud iddo—bron ei fywyd. Oblegyd y dydd canlynol ymosodwyd arno pan yn eistedd yn dawel ar lawr y Senedd, yn darllen rhyw bapurau gan gydseneddwr o'r enw Preston Brooks o Carolina. Tarawodd ef ar ei ben a phastwn mawr nes iddo syrthio i'r llawr yn farw, ac wed'yn pan ar lawr ergydiodd arno ryw ugain neu ddeg-ar-ugain o weithiau, gan ei adael fel un marw.

Ar adeg pasio'r *Kansas-Nebraska Bill* fel bob amser, yr oedd Mr. Parker a'i lygaid yn agored, ac yn dyrchafu ei lais yn ddigon croew ar y mater. Rhagwelai'r canlyniadau o'r fath fesurau. Ar ol yr ymosodiad ar Mr. Sumner, traddododd bregeth nerthol yn adolygu agwedd wleidiadol a moesol y dydd, o dan yr enw "Gwers Newydd ar gyfer y Dydd." Dywedai ynddi:—"Na ryfeddwch am yr ymosodiad hwn ar Mr. Sumner; nid yw beth dyeithr. Mae yn deilliaw o restr hir o weithredoedd, pob un yn blentyn i'r un o'i flaen, ac yn dad i'r un ar ei hol; nid eithriadol, ond arferol. Edrychwch gydag ychydig amynedd ar yr achos o'r mileinweithiau dweddar yn Washington a Boston. Ni chydunwch â mi heddyw; nis gallaf argyhoeddi 4000 o ddynion, a'u cario lawn mor bell ar unwaith. Meddyliwch am fy ngeiriau ar ol myned adref." Ei feddwl oedd mai Caethwasanaeth oedd wrth waelod y cwbl; mai ffrwyth naturiol ac anocheladwy Caethwasanaeth oedd ymosodiadau barbaraidd o'r fath hyn. Traddododd hefyd bregeth feistrolaidd ar "Gwestiwn Nebraska" ychydig o fisoedd cyn i'r mesur gael ei gario yn y *Congress*, yn gystal ag araith hyawdl ychydig cyn hyny ar yr "Eithafnod *(Crisis)* presenol yn achosion America."

Oddeutu'r amser hwn gwnaed cynyg arall i brofi ymlyniad y Gogledd wrth rydd'id cyfansoddiadol. Mai 24, 1854, daliwyd un Anthony Burns, pregethwr gyda'r Bedyddwyr, ond yn cael ei hawlio fel wedi bod rywbryd yn gaethwas i un Colonel Suttle o Alexandria, Virginia. Ar y camgymhuddiad o yspeiliad (*robbery*) y daliwyd ef. Cymerwyd ef i ystafell yn y Llys-dŷ yn Boston; yr oedd gwarchodlu yn ei wylio, a chawsai ei lwytho a chadwynau—yr hyn nid oedd yn ol y gyfraith. Y bore canlynol dugwyd ef o flaen y Dirprwywr (*Commissioner*), o hyd mewn cadwynau, er nad oedd yn euog o ddim, nac eto wedi ei ddyfarnu yn gaethwas. Yn ol llaw gwadwyd ddarfod i Burns gael ei osod mewn cadwynau, ond ar ddydd cyntaf y prawf yr oedd Mr. Parker wedi bod gydag ef a'i weled ynddynt. Yr ail ddydd cawsai ei wthio yn drwsgl ymaith oddiwrth y carcharor gan un o'r swyddogion, ond buodd yn ddigon agos i weled ei fod yn rhwym. Mae yn debyg ei bod yn benderfyniad y pryd hwn ym mhlith swyddogion y llys a phrif ddynion Boston mewn awdurdod i brofi eu ffyddlondeb i'r De. Ar y llaw arall yr oedd y Gwrthgaethwaswyr ac amddiffynwyr breiniau dyn ar eu heithaf; yn eu plith yr oedd Mr. Parker gyda'r blaenaf. Galwyd cyfarfod mawr yn Faneuil Hall, Boston, yr ail nos wedi'r ddalfa. Yr oedd y neuadd fawr wedi ei llanw hyd yr ymylon; yr oedd rhyw deimlad ofnadwy o gynhyrfus trwy y dref. Boneddwr o'r enw George R. Runell, cyfaill a chymydog i Mr. Parker pan yn West Roxbury, oedd yn y gadair. Traddodwyd areithiau gan Wendell Phillips, John L. Swift, Francis W. Bird, a Mr. Parker. Mae eu hcuwau oll yn deilwng o anfarwoldeb. Pan lefarai Mr. Parker yr oedd teimlad cryf iawn wedi ei ddeffroi yn y gynulleidfa fawr. Atelid ef o hyd gan floeddiadau o gydsyniad neu anghydsyniad. Gwrandawer arno:—

"Dywedodd Mr. Webster 'Nad oes Ogledd.' Nid oes yr un. Mae y De yn myned i fynu'n lân i linell Canada. Nac oes, foneddigion, nid oes Boston heddyw. Fe *fu* Boston unwaith. Yn awr, nid oes ond maesdref *(suburb)* i Alexandria—dyna beth yw Boston yn awr. A chwi a minau, cyd-ddineswyr o Dalaeth Virginia. (Bloeddiadau o 'Na, na!' Cymerwch hyna yn ol!") Mi a'i cymeraf yn ol, pan ddangoswch

i mi nad yw y ffaith felly. Wŷr a brodyr, nid dyn ieuange wyf; yr wyf wedi clywed *hurrahs* a chymeradwyaeth i ryddid lawer gwaith; nid wyf wedi gweled llawer o weithredoedd yn cael eu cyflawnu dros ryddid. Yr wyf yn gofyn i chwi, a ydym i gael gweithredoedd, yn gystal a geiriau?" Yma dugodd ar gof deimlad a golygiadau Boston yn yr hen amser, pan wrthryfeloedd y Taleithrau yn erbyn Lloegr, ac yn ystod ei araith dywedodd:—"Wel, foneddigion, yr wyf yn dweyd nad oes ond un gyfraith—cyfraith caethiwed; mae ym mhob man. Y mae cyfraith arall, yr hon hefyd sy ddiweddol; a'r gyfraith hono, y mae yn eich dwylaw a'ch breichiau chwi, a gellwch ei dodi ar waith pan weloch yn addas. Foneddigion, yr wyf fi yn weinidog, ac yn ddyn heddychlawn. Yr wyf yn caru heddwch. Ond y mae moddion, ac y mae dyben; rhyddid yw'r dyben, ac weithiau nid heddwch yw y moddion i'w gyrhaedd. Yn awr, yr wyf am ofyn i chwi pa beth yr ydych ar fedr ei wneyd? (Llais: "Saethu, saethu!) Y mae ffyrdd a ddod â'r peth i ben heb saethu neb Gellwch fod yn sicr am y dynion hyny a ladradasant ddyn yn Boston mai llwfriaid ydynt—pob copa gwallt o honynt; ac os safwn i fynu acw yn wrol gan daeru na chaiff y dyn hwn fyned allan o Boston, *heb saethu ergyd*, (bloeddiadau o 'Dyna hi,' a chymeradwyaeth) —yna nid aiff yn ol. Yn awr, yr wyf fi yn myned i gynyg, pan ymwasgaroch chwi, eich bod i gwrdd drachefn, *bore foru yn y Court Square am naw o'r gloch.* (Daliwyd llnaws o ddwylaw i fyny, ond gwaeddai llawer o leisiau 'A'n beno; dodwch y cwestiwn yna.') A fynwch chwi fyned heno? Yna, codwch eich dwylaw! (Codwyd rhai dwylaw). Nid yw yn bleidlais. Ni a gyfarfyddwn yn 'Court Square' am naw bore foru."

Nid gorthrech oedd dymuniad na bwriad Mr. Parker. Ei olwg ef oedd ar fod i gyfeillion rhyddid yn y dref a'r cylchoedd i droi allan mor lluosog, a chan amlygu penderfyniad mor anwrthwynebol yn y Court Square yn y bore, fel ag i frawychu'r gwarchodlu, a rhoi cyfle i'r caethwas i ddianc. Dyna feddyliai wrth eu bod i ymwasgarn dros y nos, a chwrdd yno yn y bore. Ond ni ddysgwyliodd y bobl hyd y bore. Tra yr oedd Mr. Parker yn gorphen ei araeth daeth y newydd y bwriedid gwneyd ymosodiad yn ddiced y nos hono—fod yr ymosodiad eisioes wedi dechreu; a gadawsai llawer y Neuadd tra yr oedd ef yn dodi'r cwestiwn o flaen y cwrdd. Dywedodd ef yn eglur mai pleidlais y cwrdd oedd nad oeddynt i wneyd un ymosodiad y nos hono. Ond fe brysurwyd yr ymosodiad gan gorph-lu bychan, heb fod mewn trefn dda. Torwyd y drws lle'r oedd y caethwas yn garcharor, ac yn y terfysg dygwyddwyd saethu un o warchodlu'r Marshall. Dychrynodd hyn y gwarchodlu, a saethasant hwythau ar antur yn y tywyllwch nes i fraw ledu trwy wersyll yr ymosodwyr hefyd, pan y cafwyd allan i fod dyn wedi ei saethu. Pe buasai'r olaf i wasgu yn mlaen yn benderfynol, bernid y llwyddasent yn eu cynyg. Ond fel ag y dygwyddodd, troi allan yn allwyddianus a wnaeth yr ymosodiad. Eithr nid ymosod felly oedd cynllun Mr. Parker, a'r canlyniad fu na allnogwyd Anthony Burns i ddianc; aeth y prawf (a elwid felly) rhagddo, a dyfarnwyd ef i gaethiwed dros ei holl fywyd.

Oblegyd y rhan a gymerasai Mr. Parker yn y cwrdd uchod yn Faneuil Hall, codwyd gwarant arno, ar y cyhuddiad ei fod wedi arfer iaith o duedd i gyffroi'r bobl i wneyd cynyg anghyfreithlawn i waredu Anthony Burns. Daliwyd ef, ond erbyn iddo fyned i'r llys yr oedd tri o'i aelodau wedi talu y swm ofynol o 1500 o ddoleri tuag ati ei feichnio allan i aros ei brawf yn mis Mawrth y flwyddyn ganlynol, 1855. Penderfynodd yn union i amddiffyn ei hun, a pharotodd yr Amddiffyniad ar unwaith Darllenasai yr holl *State Trials* enwocaf a gymerasant le yn y wlad hon o bryd i bryd. Astudiasai'n drwyadl natur a hanes y *Trial by Jury* o'r dechreu. Yr oedd yr Amddiffyniad mor faith a llafurfawr, fel mai dim ond rhan o hono a fwriadai ei ddefnyddio ar ei brawf. Ond ni roddwyd y cyfle iddo. Penderfynodd yr uchel-reithwyr nad oedd cwyn cywir *(true bill)*. Bernir fod ei elynion yn falch iawn na chafodd y cyfle, oblegyd yr hafog a fuasai yn sicr o'i wneyd arnynt. Ond argraffwyd yr Amddiffyniad y mis Awst canlynol; a dywed ei fywgraffydd am dano "na ysgrifenodd ddim erioed mor nerthol ac effeithiol; na cheir achosion gwladol ac eglwysig Lloegr yn un lle wedi eu dodi ger bron mor llawn o deimlad a nerth; ac mai rhyfeddod yw na byddai'r cyfansoddiad hwn yn fwy adnabyddus; a bod yr arddull yn rhagori ar ddim a geir yn ei ysgrifeniadau erail." Y Sabbath cyntaf ar ol y cythrwfl traddododd

un o'i bregethau mwyaf cyffrous a gallnog ar y "Trosedd Newydd yn erbyn Dynoliaeth." Y dydd diweddaf o'r flwyddyn hon, 1854, cawn a ganlyn yn ei ddydd-lyfr; "O Ysbryd yr hwn a lywodraethi'r bydysawd, gan weled y diwedd o'r dechreu, yr wyf yn diolch i ti am y cyfleusderau o ddefnyddiol leb a roddodd y flwyddyn ddiweddaf i mi, am yr holl amlder o ddedwyddwch a brofais. Ond O! pa mor lleied wyf wedi wneyd, wyf wedi gynyddu! Ysprydola fi i wneyd mwy, ac i ddyfod yn fwy godidog mewn bwriad, yng nghymhelliad ac yn nhrefniad fy mywyd. Cymhorth fi i wrthwynebu profedigaethau newyddion, a chyflawnu y dyledswyddau newyddion a ddug y flwyddyn newydd gyda hi. Nis gwn pa beth a ddygwydd mewn diwrnod—anrhydedd neu waradwydd, ffeallai carchar. Cymhorth fi i fod ym mhob lle i Ti yn ffyddlon. Rhoer i mi fyw i wasanaethu fy mrodyr yn fwy. Ac eto o hyd rhoer i mi i garu fy ngelynion, fel yr wyt Ti yn gwlawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn!"

WILLIAM THOMAS.

OFFEIRIAD YR EGLWYS A'R BARFWR.

YN nheyrnasiad yr ail Sior, fe ddysgodd mab i foneddwr Catholig gelfyddyd a dirgeloedd barf-feddygwriaeth. Priododd merch o hên deulu Catholig, a dechreuodd fusnes mewn pentref yn un o siroedd canolog Lloegr. Yng nghwrs amser galwodd clerc y person arno am yr hyn a elwir dyledion Pasg. Gwrthododd y barf-feddygwr dalu, am byny galwodd y person ei hunan arno a dywedodd, "Y mae fy nghlerc yn dywedyd eich bod yn gwrthod talu y dyledion Pasg; pam yr ydych yn gwrthod?" Attebodd y barf-feddygwr, "Nid wyf fi byth yn myned i'ch eglwys chwi." Dywedodd y person, "Eich bai chwi ydyw hyny, chwi a ddylech ddod."

Barf-feddygwr: "Chwi a wyddoch fy mod i yn myned i'r capel."

"Eich bai chwi ydyw hyny," meddai'r person, "y mae'r eglwys yn agored i bawb, ac yr wyf fi yno, neu y mae fy nghurad i yno, i fyned trwy'r gwasanaeth; felly eich bai chwi yw na fuasech yn dod i'r eglwys." Attebodd y barf-feddygwr, "Y mae galwad arnaf yn awr yn y neuadd; y mae eisiau wig newydd ar Syr John; ond meddyliaf am y pwnge, a gallwn siarad yn eiddylch ar ryw amser arall.

Ni fu'r person yn hir cyn cael *bill* oddiwrth y barf-feddygwr am *quarter's attendance*, yn cynnwys ceillio a thori gwallt, gwneuthur a chyweirio a dressio wigs, gwaedu a chraffinio, tynu dannedd, a dressio coes dost y person; rhwng y cwbl yr oedd *bill* go *respectable* wedi cael ei dynu allan.

Ni fu'r person fawr amser cyn galw ar y barfwr am esponiad o'r *bill*. "Pam y darfu i chwi ddanfon y *bill* yma i mi?" meddai'r person.

"Pam, beth sy maes o le ynddo?" meddai'r bartwr.

"Maes o le ynddo!" meddai'r person. "Ni ddaru i chwi erioed wneud dim i mi."

"Eich bai chwi ydyw hyny," meddai'r barf-feddygwr. "Yr wyf fi a'm gweithwyr a'm prentisiaid yma at eich gwasanaeth chwi."

"Ond," meddai'r person, "gwyddoch fod barfwr arall yn tendio arna i, yr hwn sydd Eglwyswr; nid oes dim lle i ddisgwyl i mi i roddi fy nghwstwm i chwi, a chwithau ddim byth yn dyfod i'r Eglwys."

Attebodd y barfwr, "Chwi a ddylech ddod attaf fi, fe ddylai pawb ddod; a'n bai hwy ydyw os na ddeuant; ac nid oes genych chwi ddim rheswm, yn ol eich ymresymiad eich hunan, pam na ddylech chwi dalu y *bill* a ddanfonais i chwi."

PERSON EXIT.

GWERSI BYRION.

LLAESU'R MELANCOLI.—"Cerddwch oddiamgylch yn gwneuthur daioni. Y mae un weithred o gymmwynasgarwch yn fwy ei ddylanwad ar yr ysbryd isel na'r holl olchfaoedd a infentiwyd erioed."

Pan ddywedodd cyfaill wrth Plato fath storiau gwarthus oedd ei elynion yn gwasgar am dano, attebodd y philosophydd, "Yr wyf yn diolch iddynt—bydd genyf hyny yn rhagor o reswm dros geisio byw fel na byddo i neb i'w credu."

PENTREF HYNOD IAWN.

PENTREF pert, pentref hardd, godidog, ardderchog dros ben ydyw'r pentref hwn, ac y mae'r bechgyn a'r merched ynddo, yn fawr ac yn fach, yn rhedeg yn wyllt, yn pigo i fyny wybodaeth o ddrwg ac o dda; rhai yn cael mwy o un, ereill o'r llall; rhai rhieni yn cymmeryd trafferth mawr gyd a'u plant, ereill yn eu hesgeuluso; y mae gwysiwr *(beadle)* y pentref yn awr ac yn y man yn gwneud ymosodiad ar y mwyaf terfysglyd o honynt; a'r gweinidog yn traddodi pregethau bach yn eu herbyn. Y mae agerfâd yn fynych yn dyfod i fyny ar hyd yr afon ledan ar yr hon y mae y pentref yn sefyll, ac yn yr hon y mae y coedydd a'r glânau yn ymddarlunio. Ond allan o'r agerfâd y mae *policeman* yn dyfod, ac yn cario i bant, yn awr un terfysgwr bach, bryd arall llawer, ond ambell waith blentyn bach tawel a da. Nid oes neb all ddyfalu pwy a gymmer, oni fydd fachgen yn wir wedi bwyta grawnwin surion nes y byddo yn sâl, a dyfod o'r pentrefwŷr a'u osod yn nwylaw'r *policeman* i gael gwared o hono.

Y mae'r holl bentref yn gwybod y caiff y plant a gymmerir felly eu trin yn ol eu haeddiant. Credir yn gyffredin y caiff y rhai drwg, pan y cyrhaeddont y ddinas fawr, eu gosod mewn daeardai tywyll, a'u pobi yn fyw, ddydd a nos, yn yr hên gastell mawr, â'r gwylwŷr ffyrnig ar y *pier head*; y caiff y rhai da eu cario i'r eglwys-gadeiriol hardd ardderchog, sydd yn coroni'r drum uwch law'r ddinas, ac yno y cânt glywed y pyngcio mwyaf hyfryd a chlywed canu salmau ac emynau gan y côr-geiniaid; a phan y byddo tônau'r peroriaeth puraf yn myned dan seinio trwy'r ailiau, daw goleuadau gogoneddus dan ddisgleirio trwy'r ffenestri amryliw drwy'r dydd a thrwy'r nos. Credir hefyd y bydd y rhai da yma, yn eistedd ar gadeiriau clustogau ardderchog, wedi eu dilladu yn y gwisgoedd gwŷnaf a thecaf, ac yn canu'n swynol wrthynt eu hunain yr holl amser.

Y mae rhai bobl sydd yn gwybod am y pentref rhyfedd hwnw yn synu na fyddai'r holl blant yn dda, mewn gobaith am yr eglwys-gadeiriol ac mewn ofn o'r castell. Y mae rhai yn cellwair ac yn dywedyd nad yw y rhai hyny ond rhesymau tlawd dros fod yn dda.

Y ffaith yw, nad yw'r plant ddim ond wedi clywed am dano i gyd. Nid oes neb ag y maent hwy erioed wedi weled wedi bod yn y brif-ddinas; yr oll a wyddant yw, fod y *policeman* yn dyfod, ond nid yw byth yn dywedyd un gair.

Ac yn wir byddai yn well gan y plant drwg i beidio cael myned i'r eglwys gadeiriol, ac y mae rhai o'r gwaethaf o honynt mor dlawd, mor oer, mor garpiog, fel y maent yn gofalu mwy am gael twymad da wrth y tân yn awr, nag am fod yn rhy dwym; yn wir nid oes dim llawer yn awr o'r plant gwell a allant deimlo llawer o happusrwydd yn yr eglwys-gadeiriol, ond y mae llawer yn ofni cael eu rhostio yn fyw: rhywbeth felly ydyw'r dyb gyffredin.

Heblaw hyn, fe ddywedir fod brenin y wlad wedi bod am rostio'r plant i gyd, fel set o *ne'er-do-wells* bychain, ond fe fynodd ei fab ei hunan gael ei losgi yn eu lle, felly yn awr y mae'r brenin yn gollwng yn rhydd y cyfryw hyny o'r plant a fyddo'n begian er mwyn ei fab; ac y mae llawer, hyd yn oed o'r plant drwg, yn gwneuthur hyn yn neillduol, dychryn yn peri iddynt deimlo o galon mor ddaionus ydoedd mab y brenin yn myned ac yn llosgi ei hunan i'w hachub hwy.

Nid yw brenhin y wlad, yn ol y tybiau hyn, yn ymddangos ond un digon canolig, fod angen arno i gadw y fath wmbredd o ddaeardai, a thânau a

gwylwŷr ar gyfer plant drwg. Pa fodd bynag, yr ydys yn sisial fod yr holl dybiau yma yn gyfeiliornus; fod y brenin mewn gwirionedd yn dda; ac y caiff pawb, hyd yn oed y plant drwg, hyny allan ryw ddydd; ac ym mhellach y gall y pentrefwyr weled hyny wedi ei ysgrifenu yn eglur ac yn amlwg yn y llyfr-ysgol a ddygodd mab y brenin i'r plant ys llawer dydd, cyn iddo gael, neu beidio cael, ei losgi. Y mae'r gair maes, pan fo'r *policeman* yn dyfod i'r brif-ddinas gyd a'r plant, fod ysgol-feistr nerthol a doeth yn dod i gwrdd âg ef, yr hwn nid yw byth yn wincio ar fai, fel y mae rhieni yn gwneud yn llawen o'i blegid, ; yr hwn nis gellir ei dwyllo na'i herio, fel yr offeiriad a'r gwysiwr; ac y mae'r plant yn cael allan fod ganddynt lawer iawn i'w ddioddef, o herwydd eu holl ddrygau. Ond y mae rhai o'r tu arall yn ddedwydd iawn; y mae mor bleserus i wneud yr hyn sydd dda, lle mae pawb a phob peth yn annogaeth i wneud daioni, ac y maent yn teimlo yn ddiolchgar i'r brenin, ac i fab y brenin—yr hwn y maent yn garu fel eu brawd hynaf. Y maent hwy, y rhan amlaf o honynt, yn gwybod y llyfr-ysgol a ddaeth gan fab y brenin i'r pentref ar eu tafodau, ac y mae yn hyfryd ganddynt i'w ddilyn ef yn yr eglwys-gadeiriol ac yn ysgol fawr y castell.

Nid ydys ond yn sisial hyn, serch hyny, o blegid y mae bobl y pentref yn meddwl yn uchel am ddefnyddioldeb y rhostio yma, er dychrynu'r plant fel na fyddont yn ddrwg. *Cyfd.* PEIDIWCH DWEYD PWY.

TYRFAU A GOLEUNI.

"Swn, swn,
Rhywbeth rhyfedd o swynol yw swn."

Y MAE yn hoff gan bob creadur ei swn ei hunan. Y mae hyny yn amlwg oddiwrth yr ymdrech a wneir ganddynt i greu swn. Er engraff, sylwer ar asynod Cymru, pan na bo dim ynghrog wrth eu cynffonau. O, fel y maent yn ymdrechu a'u holl egni, fel y maent yn gwasgu eu clustiau fel i wrandaw ar y peroriaeth. Neu ynte, sylwer ar Jacks Brutus, wedi y caffont eu codi i ben y stôl deirtroed. Ond swn yw swn yn parhau, pa un a fyddo yn cymmeryd ei ffurf oddiwrth fod dwytroed neu ynte un pedair-troed—pa un a fyddo yn peryglu holltiad corn y gwddf neu ynte holltiad cwmmwl yn yr awyr; nid oes ynddo o ran ei hunan ddim sydd yn niweidiol iawn, dim sydd yn addysgiadol iawn. Twrw, twrf, taran—*swn!* Byddai'n ddoeth i rai, a byddai'n dda gen innau pe bai un, yn dàl ar sylw a wnaed unwaith gan bregethwr enwog, a gweithredu yn ei ol. Os yw yn hoff gan yr hwyad ei *chlec, clac,* nid yw genyf fi. Os yw'r fran yn hoffi clywed y *caw, caw* yna yn barhaus, nid wyf fi'n clywed dim sydd yn beraidd ynddo. Ond brân yw brân, ac ofer disgwyl iddi fod yn ddim arall. Etto ni fynnwn i lai na chydnabod yn ddiolchgar, os gwir, mai BRAN ddaeth a'r Efengyl gyntaf i Gymru! Ond am y pregethwr yma, yr oedd yn hynod iawn, ar yr amser cyntaf yr aeth i'r weinidogaeth, am fawredd y swn a dybiai yn angenrheidiol i lwyddiant ei bregethu; ond yn ddisymmwth daeth cyfnewidiad rhyfedd drosto. Darfu'r swn mawr, ac wedi'r storom y daeth tawelwch. O hyny allan, nid oedd yn pregethu i syfrdanu clustiau, ond i ddynion i glywed *a deall.* Gofynodd un o'i frodyr yn y ffydd yr achos o'r cyfnewidiad disymmwth. Attebodd yntau, "Pan oeddwn yn ifange, yr oeddwn yn credu mai y twrw oedd yn lladd dynion; ond pan aethum yn gallach, cefais mai'r fellten neu'r goleuni oedd yn gwneud hyny; felly penderfynais i daranu llai a goleuo mwy." S. W. N.

ANERCHIAD AR DDIWEDD Y FLWYDDYN.

At ein Darllenwyr a'n Derbynwyr.

GYFEILLION HOFF AC ANWYL,—

DYMA ni yn gorphen y VIfed Gyfrol o'r Ail Gyfres o'r YMOFYNYDD. Ychydig wythnosau yn ol, oherwydd afiechyd trwm, braidd y disgwyliem gael hyn o fraint. Yr oedd y dolur ag oedd yn ein blino yn galw, ac i raddau mawr y mae yn parhau i alw am ychydig orphwys oddiwrth bob rhyw lafur a gofal ag a berthyn i olygiaeth cyhoeddiad misol. Gyda golwg ar amheriffeithderau a gwallau a ddichon y byddir i'w canfod, feallai yn fwy nag arferol, yn y rhifyn hwn, credwn y bydd ein darllenwyr i fod mor garedig ag i gyd-ddwyn â ni yn ein gwendid. Yr ydym yn byw mewn cŵr pellenig, ac nid oes neb ar bwys ag a all roddi llaw o gymmorth i ni mewn taraw. Pa fodd bynag, gyda'r rhifyn presennol, dymunwn gyflwyno y VIfed gyfrol o'r YMOFYNYDD, yn ostyngedig, i hynawsedd ein derbynwyr a'r cyhoedd.

Pa un ai bydd ein cyhoeddiad bychan i gael ei gario yn y blaen ymhellach, ac i fod yn effeithiol a llwyddiannus, a ymddibyna ar eraill yn fwy nag arnom ni. Nyni a wnawn ein goreu yn hyn: dan amgylchiadau presennol, nis gall hyny fod ond bychan. Ond er yn parhau i deimlo cryn lesgedd ac anhwyldeb—ac yn hiraethu am orphwys dros ryw ychydig o leiaf, nid ydym yn gweled un rheswm digonol lai nag i'r YMOFYNYDD gael wynebu ar flwyddyn arall o weithgarwch a defnyddioldeb. Ychydig drefn a chydweithrediad, ar ran noddwyr a chynorthwywyr, a symmudant y rhwystrau penaf. Gadewir hyn o fatter yn obeithiol ac yn hyderus i fod dan ddwys ystyriaeth ein cyfeillion a'n cynhorthwywyr caredig. Gan nad beth fydd tynged yr YMOFYNYDD, y mae arwyddion sicr y bydd amryw lyfrau Undodaidd i gael eu cyhoeddi yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddyfodol.

Wrth adolygu profiadau a digwyddiadau y flwyddyn sydd yn awr ar fyned heibio, y mae amryw ystyriaethau pwysig yn ymgynnyg, y rhai nid allwn yn awr ond cyfeirio attynt. Y maent yn ein cymmell i ostyngeiddrwydd ac edifeirwch, a chydag ymostyngiad i ewyllys Duw a'i drefn a'i gyfreithiau, i ymdrechu at fwy o ddiwydrwydd a ffyddlondeb dros yr hyn ddichon fod yn ol o'n tymmor appwyntiedig ar y ddaear. Mae'r Barnwr wrth y drws. Y fraint a gaffom o "allu rhoddi cyfrif yn llawen, ac nid yn drist." Ac yn benaf oll cymhellir ni i fod yn wir ddiolchgar i Dduw am ei fawr ddaioni tuag attom, yn ei ragluniaeth ac yn ei ras.

Yn ngwyneb y colledion trymion a gafwyd yn ddiweddar, trwy symmudiad gweithwyr selog a llafurus allan o'r gangen honno o Winllan Crist ag y mae ein darllenwyr gan mwyaf yn perthyn iddi, y mae yn gysur a diddanwch nid bychan i weled fod ymdrechiadau prydlawn a gwresog ar droed tuag at wneud i fyny y golled oreu y gellir, trwy gynhorthwyo dynion ieuainc a geir yn awyddus ac yn gymmwys i ymbarotoi at Waith y Weinidogaeth. Dymunwn gynnydd a llwyddiant parhaus i "*Gymdeithas y Weinidogaeth Undodaidd yn Nghymru.*"

Diweddwn gyda thalu (fel mae yn ddyledus) gydnabyddiaeth ddiolchgar i'n darllenwyr a'n derbynwyr am eu hynawsedd—i'n noddwyr, dosparthwyr a'n gohebwyr, am eu caredigrwydd—ac i'n cynhorthwywyr yn neillduol am eu ffyddlondeb. Nid ydym yn ffarwelo a'n darllenwyr; gobeithiwn gael y fraint o'u hanerch etto dan amgylchiadau mwy ffafriol. Gyda phob dymuniad da i'r YMOFYNYDD a'i gyfeillion, gorphwyswn.

Yr eiddoch yn ffyddlon,

Penybont, Rhagfyr 6, 1864. Y GOLYGYDD.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

Y WLADWRIAETH.—Gan fod ein gofod mor fyr, nis gallwn ond cyfeirio at rai o brif ddigwyddiadau'r mis. Mae y mesurau a fwriedir gan y Weinyddiaeth ar gyfer yr Eisteddiad Seneddol nesaf hyd yma yn gnddiedig. Y farn gyffredin yw, y ceisir yn ofalus i ochelyd y fath beth a dadgorphoriad (*dissolution*) y Senedd, hyd tra diwedd y flwyddyn 1865 o leiaf. Ond y mae'r blaenoriaid gwleidyddol wedi bod yn ddiwyd gyda'u gwaith yn y taleithiau. Yn eu plith traddododd Mr. Cobden araith faith a chynnwysfawr i'w gynrychiolwyr ar egwyddorion gwleidiadaeth dramor a chartrefol, gyda chyfeiriad neillduol at y rhyfel yn America. Mae Mr. Disraeli, yntau, wedi bod yn areithio yn Rhydychain ar gyssylltiad yr Eglwys â'r Llywodraeth, a'r moddion tebycaf i gadw y cyssylltiad mewn grym. Y mae achos Dr. Colenso, yn appelio yn erbyn ei ddiswyddiad gan Esgob Cape Town, i gael ei ddwyn yn fuan dan ystyriaeth y Cyfringyngor. Diau y byddys yn disgwyl yn bryderus am y penderfyniad a wneir yn y matter. Mae llys y Cyfrin-gyngor wedi colli ymddiried gwyr yr Eglwys oddiar ryddhad Dr. R. Williams a Mr. Wilson.

FRANZ MULLER.—Dienyddiwyd Müller ar y 14eg o Dachwedd. Gwnaeth cymdeithas o'i gydwladwyr yn Llundain bob ymdrech drosto ar ei brawf, ac wedi ei gondemnio ymdrechasant, trwy bob modd cyrhaeddadwy, i ddymchwelyd dedfryd y Rheithwyr a'r Barnwyr, ond yn ofer. Tebyg y barnasai Müller y buasai eu hymdrechion yn llwyddiannus, a daliai ei ddieuogrwydd hyd y fynud olaf; ond y foment olaf, pan oedd y gorden am ei wddf, a phob gobaith daiarol wedi diflanu, mewn attebiad i ofyniad yr offeiriad Almaenaidd, "A ddarfu iddo gyflawni y weithred, o herwydd yr hon yr oedd wedi ei gondemnio i ddienyddiad?" Dywedodd, "Do, mi a'i gwnaethum." Y fynud ar ol hyny yr oedd yn ddyn marw.

Y CYFANDIR.—Y mae Denmarc, ar ol cael ei gorchfygu a'i hyspeilio, yn awr mewn heddwch â Germany. Ond y mae materion y Dugiaethau, Holstein a Lawenburg, yn mhell o fod wedi cael eu penderfynu. Tebyg fod yr ymosodwyr yn awr yn dechreu profi o ffrwythau surion eu gweithredoedd trahaus.

AMERICA.—Yr unig newydd o bwys sydd wedi'n cyrhaedd yn ddiweddar ydyw ad-etholiad Mr. Lincoln i'r gadair lywyddol: ffaith ydyw ag sy'n debygol o gael effaith neillduol ar barhad y rhyfel annedwydd Mae talaith Maryland, trwy weithred gyfansoddiadol, wedi rhyddhau ei chaethion oll, tua 100,000.

Bu Farw—

AR y 24ain o Hydref, ar ol ychydig ddyddiau o gystudd, o'r *scarletina*, Thomas Watkin, yn 9 mlwydd oed, (mab hynaf); etto, o'r un dolur, ar yr 28ain o'r un mis, Matthew, yn 3 mlwydd oed; plant Thomas Hopkin Hosgood, Yswain, Aberdar, prif beiriannydd gweithiau haiarn Plymouth ac Abernant, Aberdar. Dymunem fod rhieni ynghyd a pherthnasau y rhat bychain hyn yn cael y fraint o ymorphwys ar addewidion ein Tad Nefol trwy yr Iesu, ac y bydd iddynt yn eu hamddifadrwydd i gysuro a chyfnerthu eu heneidiau trwy ei addysgiadau cariadlawn Ef.

Duw o'i gariad fywyd roddodd,—
Duw o'i gariad ail-gymmerodd,—
Ac o'i gariad ein Tad Nefol,
Gyfyd bawb i fywyd bythol. C.

Ar y 5ed o Dachwedd, yn dra disymwth, Evan Thomas, Ysw., Nantegryd, Llandyssil, yn 33 oed. Yr ymadawedig ydoedd fab ieuangaf y diweddar David Thomas, Ysw., Llanfair Y Iau canlynol hebryngwyd ef i'w fedd yng nghladdfa'r Undodiaid yn Pantydefaid, gan dorf luosog o gyfeillion a chydnabod. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan T. T., gweinidog y lle. Nid ydoedd yr ymadawedig mwy nac eraill heb ei ffaeleddau, ond nid gormod yw dywedyd ei fod yn un o'r caredicaf o feibion gwragedd. T. T.

Ar y 17eg o Dachwedd, yn 95 mlwydd oed, Mrs. Margaret Evans, Blaen-y-waunisaf, Llanwnnen, (gweddw y diweddar Mr. Thomas Evans, Frofach, Llanfihangel-ystrad, Ceredigion.) Y Sabbath canlynol hebryngwyd hi gan dyrfa fawr iawn i dŷ ei hir gartref ym mynwent Capel-y-groes. Ar forau dydd ei hangladd bu farw William Jones, ei mhab-ynghyfraith, o'r un lle, yn 59 mlwydd oed. Claddwyd yntau y dydd Mawrth canlynol yn yr un gladdfa. Cyflawnwyd y gwasanaeth arferol ar y ddau achlysur gan y Parch Thomas Thomas, Pantydefaid. Ymgysured eu plant a'u perthynasau yng ngobaith yr Efengyl. J.D.

ANERCHIAD AR DDIWEDD Y FLWYDDYN.

At ein Darllenwyr a'n Derbynwyr.

GYFEILLION HOFF AC ANWYL,—

DYMA ni yn gorphen y VIfed Gyfrol o'r Ail Gyfres o'r YMOFYNYDD. Ychydig wythnosau yn ol, oherwydd afiechyd trwm, braidd y disgwyliem gael hyn o fraint. Yr oedd y dolur ag oedd yn ein blino yn galw, ac i raddau mawr y mae yn parhau i alw am ychydig orphwys oddiwrth bob rhyw lafur a gofal ag a berthyn i olygiaeth cyhoeddiad misol. Gyda golwg ar amherffeithderau a gwallau a ddichon y byddir i'w canfod, feallai yn fwy nag arferol, yn y rhifyn hwn, credwn y bydd ein darllenwyr i fod mor garedig ag i gyd-ddwyn â ni yn ein gwendid. Yr ydym yn byw mewn cŵr pellenig, ac nid oes neb ar bwys ag a all roddi llaw o gymmorth i ni mewn taraw. Pa fodd bynag, gyda'r rhifyn presennol, dymunwn gyflwyno y VIfed gyfrol o'r YMOFYNYDD, yn ostyngedig, i hynawsedd ein derbynwyr a'r cyhoedd.

Pa un ai bydd ein cyhoeddiad bychan i gael ei gario yn y blaen ymhellach, ac i fod yn effeithiol a llwyddiannus, a ymddibyna ar eraill yn fwy nag arnom ni. Nyni a wnawn ein goreu yn hyn: dan amgylchiadau presennol, nis gall hyny fod ond bychan. Ond er yn parhau i deimlo cryn lesgedd ac anhwyldeb—ac yn hiraethu am orphwys dros ryw ychydig o leiaf, nid ydym yn gweled un rheswm digonol lai nag i'r YMOFYNYDD gael wynebu ar flwyddyn arall o weithgarwch a defnyddioldeb. Ychydig drefn a chydweithrediad, ar ran noddwyr a chynorthwywyr, a symmudant y rhwystrau penaf. Gadewir hyn o fatter yn obeithiol ac yn hyderus i fod dan ddwys ystyriaeth ein cyfeillion a'n cynhorthwywyr caredig. Gan nad beth fydd tynged yr YMOFYNYDD, y mae arwyddion sicr y bydd amryw lyfrau Undodaidd i gael eu cyhoeddi yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddyfodol.

Wrth adolygu profiadau a digwyddiadau y flwyddyn sydd yn awr ar fyned heibio, y mae amryw ystyriaethau pwysig yn ymgynnyg, y rhai nid allwn yn awr ond cyfeirio attynt. Y maent yn ein cymmell i ostyngeiddrwydd ac edifeirwch, a chydag ymostyngiad i ewyllys Duw a'i drefn a'i gyfreithiau, i ymdrechu at fwy o ddiwydrwydd a ffyddlondeb dros yr hyn ddichon fod yn ol o'n tymmor appwyntiedig ar y ddaear. Mae'r Barnwr wrth y drws. Y fraint a gaffom o "allu rhoddi cyfrif yn llawen, ac nid yn drist." Ac yn benaf oll cymhellir ni i fod yn wir ddiolchgar i Dduw am ei fawr ddaioni tuag attom, yn ei ragluniaeth ac yn ei ras.

Yn ngwyneb y colledion trymion a gafwyd yn ddiweddar, trwy symmudiad gweithwyr selog a llafurus allan o'r gangen honno o Winllan Crist ag y mae ein darllenwyr gan mwyaf yn perthyn iddi, y mae yn gysur a diddanwch nid bychan i weled fod ymdrechiadau prydlawn a gwresog ar droed tuag at wneud i fyny y golled oreu y gellir, trwy gynhorthwyo dynion ieuainc a geir yn awyddus ac yn gymmwys i ymbarotoi at Waith y Weinidogaeth. Dymunwn gynnydd a llwyddiant parhaus i "*Gymdeithas y Weinidogaeth Undodaidd yn Nghymru.*"

Diweddwn gyda thalu (fel mae yn ddyledus) gydnabyddiaeth ddiolchgar i'n darllenwyr a'n derbynwyr am eu hynawsedd—i'n noddwyr, dosparthwyr a'n gohebwyr, am eu caredigrwydd—ac i'n cynhorthwywyr yn neillduol am eu ffyddlondeb. Nid ydym yn ffarwelo a'n darllenwyr; gobeithiwn gael y fraint o'u hanerch etto dan amgylchiadau mwy ffafriol. Gyda phob dymuniad da i'r YMOFYNYDD a'i gyfeillion, gorphwyswn.

Yr eiddoch yn ffyddlon,

Penybont, Rhagfyr 6, 1864. Y GOLYGYDD.

Hanesiau Cartrefol a Thramor.

Y WLADWRIAETH.—Gan fod ein gofod mor fyr, nis gallwn ond cyfeirio at rai o brif ddigwyddiadau'r mis. Mae y mesurau a fwriedir gan y Weinyddiaeth ar gyfer yr Eisteddiad Seneddol nesaf hyd yma yn guddiedig. Y farn gyffredin yw, y ceisir yn ofalus i ochelyd y fath beth a dadgorphoriad (*dissolution*) y Senedd, hyd tra diwedd y flwyddyn 1865 o leiaf. Ond y mae'r blaenoriaid gwleidyddol wedi bod yn ddiwyd gyda'u gwaith yn y taleithiau. Yn eu plith traddododd Mr. Cobden araith faith a chynnwysfawr i'w gynrychiolwyr ar egwyddorion gwleidiadaeth dramor a chartrefol, gyda chyfeiriad neillduol at y rhyfel yn America. Mae Mr. Disraeli, yntau, wedi bod yn areithio yn Rhydychain ar gyssylltiad yr Eglwys â'r Llywodraeth, a'r moddion tebycaf i gadw y cyssylltiad mewn grym. Y mae achos Dr. Colenso, yn appelio yn erbyn ei ddiswyddiad gan Esgob Cape Town, i gael ei ddwyn yn fuan dan ystyriaeth y Cyfringyngor. Diau y byddys yn disgwyl yn bryderus am y penderfyniad a wneir yn y matter. Mae llys y Cyfrin-gyngor wedi colli ymddiried gwyr yr Eglwys oddiar ryddhad Dr. R. Williams a Mr. Wilson.

FRANZ MULLER.—Dienyddiwyd Müller ar y 14eg o Dachwedd. Gwnaeth cymdeithas o'i gydwladwyr yn Llundain bob ymdrech drosto ar ei brawf, ac wedi ei gondemnio ymdrechasant, trwy bob modd cyrhaeddadwy, i ddymchwelyd dedfryd y Rheithwyr a'r Barnwyr, ond yn ofer. Tebyg y barnasai Müller y buasai eu hymdrechion yn llwyddiannus, a daliai ei ddieuogrwydd hyd y fynud olaf; ond y foment olaf, pan oedd y gorden am ei wddf, a phob gobaith daiarol wedi diflanu, mewn attebiad i ofyniad yr offeiriad Almaenaidd, "A ddarfu iddo gyflawni y weithred, o herwydd yr hon yr oedd wedi ei gondemnio i ddienyddiad?" Dywedodd, "Do, mi a'i gwnaethum." Y fynud ar ol hyny yr oedd yn ddyn marw.

Y CYFANDIR.—Y mae Denmarc, ar ol cael ei gorchfygu a'i hyspeilio, yn awr mewn heddwch â Germany. Ond y mae materion y Dugiaethau, Holstein a Lawenburg, yn mhell o fod wedi cael eu penderfynu. Tebyg fod yr ymosodwyr yn awr yn dechreu profi o ffrwythau surion eu gweithredoedd trahaus.

AMERICA.—Yr unig newydd o bwys sydd wedi'n cyrhaedd yn ddiweddar ydyw ad-etholiad Mr. Lincoln i'r gadair lywyddol: ffaith ydyw ag sy'n debygol o gael effaith neillduol ar barhad y rhyfel annedwydd Mae talaith Maryland, trwy weithred gyfansoddiadol, wedi rhyddhau ei chaethion oll, tua 100,000.

Bu Farw—

AR y 24ain o Hydref, ar ol ychydig ddyddiau o gystudd, o'r *scarletina*, Thomas Watkin, yn 9 mlwydd oed, (mab hynaf); etto, o'r un dolur, ar yr 28ain o'r un mis, Matthew, yn 3 mlwydd oed; plant Thomas Hopkin Hosgood, Yswain, Aberdar, prif beiriannydd gweithiau haiarn Plymouth ac Abernant, Aberdar. Dymunem fod rhieni ynghyd a pherthnasau y rhat bychain hyn yn cael y fraint o ymorphwys ar addewidion ein Tad Nefol trwy yr Iesu, ac y bydd iddynt yn eu hamddifadrwydd i gysuro a chyfnerthu eu heneidiau trwy ei addysgiadau cariadlawn Ef.

Duw o'i gariad fywyd roddodd,—
Duw o'i gariad ail-gymmerodd,—
Ac o'i gariad ein Tad Nefol,
Gyfyd bawb i fywyd bythol. C.

Ar y 5ed o Dachwedd, yn dra disymwth, Evan Thomas, Ysw., Nantegryd, Llandyssil, yn 33 oed. Yr ymadawedig ydoedd fab ieuangaf y diweddar David Thomas, Ysw., Llanfair Y Iau canlynol hebryngwyd ef i'w fedd yng nghladdfa'r Undodiaid yn Pantydefaid, gan dorf luosog o gyfeillion a chydnabod. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan T. T., gweinidog y lle. Nid ydoedd yr ymadawedig mwy nac eraill heb ei ffaeleddau, ond nid gormod yw dywedyd ei fod yn un o'r caredicaf o feibion gwragedd. T. T.

Ar y 17eg o Dachwedd, yn 95 mlwydd oed, Mrs. Margaret Evans, Blaen-y-waunisaf, Llanwnnen, (gweddw y diweddar Mr. Thomas Evans, Frofach, Llanfihangel-ystrad, Ceredigion.) Y Sabbath canlynol hebryngwyd hi gan dyrfa fawr iawn i dŷ ei hir gartref ym mynwent Capel-y-groes. Ar forau dydd ei hangladd bu farw William Jones, ei mhab-ynghyfraith, o'r un lle, yn 59 mlwydd oed. Claddwyd yntau y dydd Mawrth canlynol yn yr un gladdfa. Cyflawnwyd y gwasanaeth arferol ar y ddau achlysur gan y Parch Thomas Thomas, Pantydefaid. Ymgysured eu plant a'u perthynasau yng ngobaith yr Efengyl. J.D.

Barddoniaeth.

CAN FUDDUGOL AR FRAWDGARWCH.

Fy nghyd-wladwyr ! Mawr hyfrydwch,
Fyddai gweled gwir frawdgarwch,
A hedd goron mwyn hawddgarwch,
Mewn un cwlwm clyd,
Yn teyrnasu trwy'n T'wysogaeth,
Cadwyn benaf fedd dynoliaeth
Ydyw cadwyn gwir frawdoliaeth,
Helaeth, benaeth byd:
Hwn o hyd fo'n lledu,
Cariad fo'n cynyddu,
Yna cawn ddedwyddwch llawn,
Gwir uniawn drwy holl Gymru;
Heddwch a phob rhagoriaethau,
Fydd yn llanw ein tiriogaethau,
Yn lle cynhen ac ymladdau,
Gwynfyd geir o hyd.

Boed brawdgarwch i deyrnasu,
Drwy'r holl wledydd mae yn haeddu,
Pob rhagoriaeth i anrhegu.
Iddo geinber gan ;
Boed ei sedd o fewn pob calon,
Tarian yw i bawb trigolion,
Fe'u cyfoda i uwch safon,
Parch fo i'w enw glan:
Coron auredd cariad,
Ydyw ei nodweddiad,
Dwyn y byd i undeb clyd,
Wna brawdol gydymdeimlad ;
Lladd gormesiaeth ac anghydfod,
Pob aflwyddiant erch a thrallod,
Yn lle brychau garw bechod,
Cysur ddyd i'n rhan.

Mae brawdgarwch yn mhob teulu,
Pa le bynag bo'n bodoli,
'N atal cynhen ac ymgroesi,
Llid ni ddaw i'r lle ;
Plant yn ufudd i'w rhieni,
Gwnant y cyfan fo'nt yn erchi,
A phob gwyneb fel yn gwenu,
Tân ei faner e' ;
Pleidia ryddid hylon,
Etyl waith llofruddion,
Yn a gais mae'n groch ei lais
Yn erbyn trais y beilchion :
Pe bae'r lleidr yn ei feddu,
Rhoddai'r erchyll swydd i fynu,
Ac ni chrwydrai'r nos o ddeutu,
Safai yn ei dre.

O flaen gwres brawdgarwch ffyddlon,
Ciliai chwerw lais y trawsion ;
Dichell twyllwyr, trais cybyddion,
Gelai farwol glwy :
Pe bae hwn ar faes y rhyfel,
Llwyr ataliai ruad magnel,
Celai'r cledd ei weinio'n ddiogel,
Heddwch fyddai mwy :
Pe bae yn Amerig,
Gan Gaethfeistriaid dieflig,
Gwnae ryddhau bob caeth yn glau,
O'u rhwymau'n ddigon diddig ;
Bloeddiwn ar i hwn deyrnasu,
Drwy bob goror, yn mhob teulu,
Boed i'w haulwen i gyfodi,
Peidied oedi 'n hwy.

Trecynon. Dewi Iago.

Y GAUAF.

Y gauaf arwaf oerwedd,—a ddeuodd
I ddiosg teleidwedd
Y ddaear a'i hygar hedd,
A'i gwisgo â dig osgedd.

Mae'r llysiau a'r blodau blydd—yn llechu,
Yn lloches oer dywydd ;
Gwyrddion fwyd mewn gardd ni fydd,
Mwsog sy' hyd y maesydd.

I'n plith nid gwenith gnwd gwyn--y llwydrew
Yw llodrwisg y dyffryn ;
Gwerdd oer braw a guddia 'r bryn,
A llwydaidd ei ddilledyn.

O'u mawredd y coedydd mirain,—a geir,
A'u gwedd yn noeth druain ;
Ysgytir, rhwygir y rhai'n,
Yn llafar clywch hwy'n llefain.

Ymruo, curo, mae'r corwynt,—a'i daran
Hyf dery'r dwyreinwynt ;
Anhylaw yw ein helynt,
Y'mhob rhyw fan gan y gwynt.

Yr eira gâna y gwaenydd,—lloches
Y lluwch yw y nentydd ;
O'r mânod gwyn yw'r mynydd,
Y dwr draw fel dur a drydd.

Y dyfroedd i'r moroedd mawrion—nid ânt,
Ond dur ydynt weithion ;
O ! ryfedd wedd yr afon,
Rhyna y dwfr, rhewa 'n dôn.

Dygyfor y mae'r môr, a mwy—yn awr,
Y naid ei ryferthwy,
Hyf nwydog ac ofnadwy,
A'i gry gledd, rhydd i'r graig glwy.

O mor brudd yw grudd y graig,—yn wylo
Yn wylaidd mae'r dalgraig ;
O tân ru tônau yr aig
E chwal grym yr uchelgraig.

Am fan y chwim afonydd,—melus sôn,
Teimlais wir lawenydd
Wrth rodio'n 'mharth yr 'hedydd,
Yn eilio'r dôn lawer dydd.

Cynhauaf a hâf hefyd,—a gwanwyn
Eginawl mewn gweryd,
Y gaua'—oedfa adfyd,
Du ei wedd, yw bedd y byd.

Cawr Ayron.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.